

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 313 - 60c
Mai 2013

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Rhedwyr Marathon Llundain



Tudalen 5

Cadwyn Cyfrinachau arall



Tudalen 10

Colofn newydd Helen



Tudalen 8

Lap o Gymru - Beicwyr Llanybydder



Penderfynodd Llyr Davies, Llanybydder i fynd ar daith feicio llynedd. Yn y lle cyntaf, edrychodd e ar y we i weld pa deithiau beicio oedd i gael ond heb weld dim byd oedd e wedi lico. Felly penderfynodd fynd ati i gynllunio taith feicio ei hunan a dyna yw Lap o Gymru.

Fe wnaeth benderfynu ar Ymchwil Cancr fel yr elusen y byddai'n codi arian tuag ato. Mae cancr yn rhywbeth sydd wedi effeithio ei deulu a hefyd y gymuned lleol, felly roedd yn meddwl bod yr elusen yma'n un teilwng.

Lap o Gymru 2013 - Taith feicio noddedig o amgylch Cymru i godi arian tuag at Ymchwil Cancr gyda'r bwriad o godi £10,000 at achos mor deilwng. Dros 9 diwrnod fe wnaethon nhw seiclo tua 700 milltir gan ddechrau a gorffen yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.

Enwau'r seiclwyr - Llyr Davies, Tracey Davies, Kelly Davies, Emma Davies, Michelle Davies, Angharad Morgan, Rhys Jones, Dyfrig Dafis, a gwnaeth Llyr Jones seiclo am 3 diwrnod, a Mererid Davies un diwrnod hefyd.

Cafwyd disgo, rhostio mochyn ac ocsiwn i groesawu'r seiclwyr adre ar nos Sadwrn y 13eg o Ebrill yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.

Ar hyn o bryd maent wedi codi tua £8000 gyda arian yn dal i ddod mewn, mae 'na groeso i unrhyw un i'w noddi ar y linc isod: myprojects.cancerresearchuk.org/fundraise/fundraising-pages/lap-o-gymru-2013

Hoffai Llyr ddiolch i bawb am yr holl gefnogaeth a dderbyniwyd cyn, yn ystod ac ar ôl y daith feicio. Mae'n gwerthfawrogi bob cymorth; heb y gefnogaeth yma byddai'r daith wedi bod yn amhosib i'w threfnu a'i chwblhau.

Fe ddechreuodd y daith yng Nghlwb Rygbi Llanybydder ar ddydd Gwener y 5ed o Ebrill a seiclo i Dywyn. Diwrnod 2 - Tywyn i Gaernarfon. Diwrnod 3 - Caernarfon o amgylch Ynys Môn a nôl i Fangor. Diwrnod 4 - Bangor i Wrecsam. Diwrnod 5 - Wrecsam i Dalgarth. Diwrnod 6 - Talgarth i Gasgwent. Diwrnod 7 - Casgwent i Lanelli. Diwrnod 8 - Llanelli i Dyddewi. Diwrnod 9 - Tyddewi nôl i Glwb Rygbi Llanybydder.

Cyngerdd Bro Fana

Cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog yn Neuadd Bro Fana Ffarmers ar nos Sadwrn, yr 20fed o Ebrill yng nghwmni Côr Meibion De Cymru, o dan arweiniad Elaine Robins, gyda Juliet Rossiter yn cyfeilio. Croesawyd Ina Morgan, y soprano o Lanfynydd i ganu, a Georgina Cornock Evans, Harford i chwarae'r delyn, ac fel bonws, cafwyd eitem gan Carys Morgan, Lanfynydd - merch Ina. Roedd y gyngerdd o safon uchel, y Neuadd yn llawn, a'r gynulleidfa yn sicr wedi'i phlesio. Llywyddion y noson oedd Aelwyn ac Avril Evans, Caegwyn, y ddau yn weithgar o fewn y gymdogaeth.



Codi canu, codi arian



Eleri Samson, Cadeirydd Lleisiau Bro Eirwyn (dde) yn cyflwyno sic am £1,700 i Dr Simon Holt, Uned Gofal y Fron, Ysbyty Llanelli. Codwyd yr arian drwy gynnal nifer o gyngherddau yn yr ardal. Cyflwynwyd y sic iddo yng Ngwesty'r Porth, Llandysul yng nghwmni rhai o aelodau Parti Lleisiau Bro Eirwyn.

Beth am hysbysebu ym mhapur bro

CLONC

Hysbyseb 6.5 x 5cm am £10, neu £60 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm am £20, neu £120 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 5cm lliw am £25, neu £150 mewn deg rhifyn
Hysbyseb 6.5 x 10.5cm lliw am £50, neu £300 mewn deg rhifyn
Chwarter tudalen am £40, neu £100 am hysbyseb lliw
Hanner tudalen am £60, neu £150 am hysbyseb lliw



WEDI CAEL CANIATAD CYNLLUNIO AC EISIAU ADEILADWR?

PEIDIWCH AG EDRYCH DIM PELLACH...

RYDYN NI'N DELIO Â PHOB AGWEDD O'R GWAITH;
ADEILADU TAI NEWYDD, ADNEWYDDU, ESTYNIADAU AC ADDASIADAU.
O'R CYNLLUNIO I'R CWBLHAU.



- GWAITH COED • TOI • FFENESTRI A DRYSAU • GRISIAU •
- CEGINNAU • YSTAFELLOEDD 'MOLCHI • LLORIAU PREN •
- RHEOLI PROSIECT • DULLIAU EGNI AMGEN A'U GOSOD •



www.cartrefircwm.co.uk

Cartrefir Cwm, 1 Tynyffordd, Rhydybont, Llanybydder, Carmarthenshire, SA40 9QU

Ffôn: 01570 480 214 • Symudol: 07814 027 849 • E Bost: info@cartrefircwm.co.uk



www.facebook.com/clonc



@Cloncyn

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Tracey Williams.

Ebrill 20

Llanbed yn ennill twrnament pêl-droed iau yn Felinfach. Da iawn.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Mared Rand Jones ► **Papur Bro Clonc**

Ebrill 20

Adran A - Diwrnod braf yn Sioe Feirch Llanbed heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Cerian-Mair Jones.

Ebrill 5

Beicwyr Lap o Gymru Llanybydder ar eu ffordd. Pob lwc.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Emma Rączka.

Ebrill 2

Chi'n adnabod y pedwar yma mewn llun a dynnwyd yn Eisteddfod 1984?

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Dyfan Evans.

Mawrth 19

Eira Dydd Sadwrn yn Stryd Fawr, Llanbed.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Beca Russell ► **Papur Bro Clonc**

Mawrth 9

Yr hawl fawr ar gau yng Nghwmann. Codi'r tancyr o Gae Coedeiddig.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Mehefin Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncyn
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cost Parcio

Mae hwn yn mynd yn fwy o broblem o hyd. Fe fydd angen talu am barcio ar y Cwmins yn Llambled yn fuan iawn. Ceisiwyd gwneud hyn flynyddoedd yn ôl, ond wedi edrych yn fanwl ar hen ddogfennau sylweddolwyd mae rhodd i'r dre oedd y tir sef Tir Comin. Roedd hyn yn golygu fod y tir at wasanaeth y trigolion am ddim. Sut mae'r ddeddf neu'r arfer wedi newid?

Mae canol tre fel Llambled yn mynd i ddiodeff. Mynd allan o'r ardal a chwilio am ganolfannau siopa lle mae parcio am ddim fydd llawer yn ei wneud. I Gardi mae'n anodd meddwl talu am barcio pan mae ond un neu ddau neges sydd eisiau. Mae'n anodd meddwl talu am barcio ar y Sul wrth fynychu un o'r ddau gapel ar y Cwmins. Mae 'na ddiffyg gweledigaeth ar ran pobol ddylasai wybod yn well!

Ynni Adnewyddol

Dyma broblem fydd yn codi dros rannau helaeth o Geredigion yn fuan iawn. Yn bersonol nid wyf yn erbyn y syniad, mae'n angenrheidiol chwilio am ffyrdd gwahanol i gynhyrchu'r trydan rydym i gyd yn dibynnu arno. Mae eisiau canllawiau synhwyrol cyn caniatáu codi melinau gwynt hwnt ac yma yn ein bröydd. Mae maint y felin ynghyd â'r lleoliad yn hollbwysig. Mae pawb yn teimlo nad ydynt eisiau'r rhain yn eu gardd gefn, eraill yn teimlo fod maintiol'r melinau yn bwysig. Y broblem yw nad oes gwerth codi melin mewn pant gan fod dim digon o wynt yno, felly eu rhoi ar y darn uchaf o dir sy'n gwneud synnwyr.

Dyma sy'n creu'r broblem. O roi melin ar ben bryn mae i'w gweld dros ardal eang, a hyn mae llawer yn ei wrthwynebu. Mae ffermwyr ledled Cymru wedi gweld enillion ffermio yn lleihau pob blwyddyn. Yn naturiol gwelant gyfle i ychwanegu at eu henillion. Mae hyn yn ddealladwy. Mae buddsoddi mewn melin wynt yn well defnydd o arian na'i adael yn y banc ar log bitw. Rhaid i'r ffermwyr hefyd feddwl am drigolion yr ardaloedd sy'n gorfod byw dan gysgod y rhain. Rhochw nhw yn eich gardd gefn.

Y wnnol

Mae'n hyfryd croesawu'r gwenoliaid wedi gaeaf hir. Ble welsoch chi'r gyntaf eleni? Mewn angladd y gwelais i'r wnnol gyntaf. Drws ar ochr y capel yn agor i ddisgwyl y cynhebrwng, ond beth ddaeth i mewn ond un wnnol. Bu'n hedfan o gwmpas to y capel gan drydar yn brysur. Ni wnaeth yr un ymdrech i ddod i lawr o'r galeri tan i'r drws ar yr ochr gael ei ail-agor ar derfyn y gwasanaeth a dyma'r aderyn yn hedfan allan. Byddaf yn cysylltu'r bore Sadwrn hwnnw â ffarwelio a ffrind a chroesawu'r Gwanwyn. Mae natur yn ein syfrdanu yn aml.

Hwyl! **Cloncyn**

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Cwmann



Aelodau Sefydliad y Merched Coedmor yn dilyn parti pen-blwydd arbennig sylfaenydd y gangen - Avril Williams yn 80 oed, yn yr Hedyn Mwstard, Llambled.



Côr Corisma yn perfformio mewn noson elusennol i godi arian i Sefydliad y Galon yn Neuadd Iau Ysgol Bro Pedr.

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



MAI

- 2 - Noson Stwffio yn y Shapla Tandoori, Llambled, am 7y.h. er budd Plaid Cymru Cangen Llambled. Tocynnau £15 gan Ann Morgan, 422413.
- 3 - Cneifio Llambled yn cynnal noson o Rasys Moch yng Nghlwb Rygbi Llambled am 7.30y.h. Dewch yn llw.
- 4 - Rali C.Ff.I Sir Gaerfyrddin yng nghaeau Nant y Ci, Caerfyrddin.
- 4 - Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa Talgarreg. Manylion gan Emyr ar 01545 590383 neu Enfys ar 01545 590295.
- 6 - Calan Mai Cwrtnewydd. Ras Hwyl a nifer o stondinau eraill. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol ar 01570 434273.
- 11 - C.Ff.I. Llanllwni yn cynnal noson It's a Knockout a Rhostio Mochyn fel rhan o ddathliadau 70 oed y clwb.
- 11 - Marchnad y Werin yn Neuadd Fictoria Llanbed 10yb - 1yp gyda chynfnewidiad planhigion.
- 11 - Cyngerdd Age Cymru Ceredigion gyda Chôr Meibion a Seindorf Arian Aberystwyth 7.30pm yng Nghanolfan Morlan, Aberystwyth.
- 12 - Cyngerdd Clasurol yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers yng nghwmni Mrs Perfect, gynt o Pantunos a Mrs Wilson, Cwmam am 3.30y.p.
- 12 - Rihysal Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr Bethel, Cwm Pedol am 2yp.
- 14 - Pwyllgor Carnifal Cwmam yn Croesor, Cwmam 7.30yh.
- 16 - Cyfarfod Mawr Transition Llambled yn Neuadd Fictoria am 7yh.
- 17 - Noson Goffi dan nawdd Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h. Croeso i bawb.
- 19 - Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr ym Methel Silian am 2.30 a 5.30y.h.
- 19 - Côr Cwmam a'r Cylch yn Eglwys Santes Fair, Llanfair ar nos Sul am 6.30yh gyda'r artistiaid Kees Huysmans a Deiniol Williams.
- 21 - Cyfarfod Blyneddol Clonc yn Llain y Castell, Llanbed am 7.00y.h.
- 25 - Marchnad y Werin yn Neuadd Fictoria Llanbed 10yb - 1yp gydag arwerthiant pen bwrdd o ddillad a nwyddau.
- 26 - Helfa Drysor Car Pwyllgor Pentref Cwmam yn dechrau o Motor World am 3yp.
- 27 - Carnifal a Mabolgampau Cwmam ar gae'r pentref am 12.30yp. Ras Hwyl 5 milltir a rasys plant ar gae pentref Cwmam am 3.30yp a 4.30yp.
- 27 - Arwerthiant Cist Car Blyneddol ym Mhumsaint o 10yb - 1yp. Trefnir gan gangen Pumsaint o Sefydliad y Merched.

MEHEFIN

- 1 - C.Ff.I Llanllwni yn cynnal cinio i 70 oed y clwb yn Tŷ Glyn Aeron am 7.30yh. Manylion: Meryl Davies ar 01559 384217 / 07791 305614.
- 7 - Noson yng nghwmni Clive Edwards yn y Llew Du Llanybydder.
- 7 - C.Ff.I Llanllwni yn cynnal Helfa Drysor i ddechrau o Neuadd yr Eglwys, Maesyrugiau am 6.30y.h.
- 7 - Ysgol Gynradd Llanwnnen yn cyflwyno noson o adloniant yn y Grannell gyda Dafydd Hywel, Dewi 'Pws' Morris a Gillian Elisa.
- 9 - Gŵyl Gorawl Eglwysy'r Ddeoniaeth yn Eglwys Tregaron. Gwasanaeth y plant am 2yp a'r oedolion am 6yh. Yr arweinyddes fydd Mrs Ceinwen Evans.
- 15 - Rali C.Ff.I Ceredigion yn Nhal-y-bont.
- 22 - Aduniad Ysgol Pencarreg yn y Llew Du, Llanybydder.
- 23 - Diwrnod o hwyl ym mharc Llanybydder - twrnament rownderi i blant a thwrnament pêl-droed yng ngwisg ffansi i'r oedolion.
- 28 - Ffair Haf Ysgol Llanwenog am 4 o'r gloch.
- 29 - Carnifal Llanybydder (Pwyllgor Pentref Llanybydder).
- 29 - Wil Tân, Clive Edwards a Meibion y Mynydd yn Llety Parc, Aberystwyth am 8yh. £10 tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon.

GORFFENAF

- 12 - Ffair Haf Ysgol Gynradd Llanwnnen yn yr ysgol am 4.00y.p.
- 13 - Mabolgampau Blyneddol Cwrtnewydd.
- 27 - Ffair Fwyd Llambled.

AWST

- 3 - Carnifal Llanbedr Pont Steffan.
- 9 - Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan. Manylion gan yr ysgrifennydd, Iwan Williams 422370.
- 10 - Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 17 - Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 - 26 - Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan yn Ysgol Bro Pedr.

MEDI

- 13 - 15 - Ras yr Iaith drwy Geredigion.

HYDREF

- 5 - Sioe Ffasiwn yr Urdd gan Duet a Lan Llofft yn y Drindod Dewi Sant.
- 11 - Eisteddfod Ddwl Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.

Gohebiaeth


Mae cynhyrchydd teledu o Gricieth yn apelio am deuluoedd i gymryd rhan mewn cyfres newydd sbon i'w darlledu ddiwedd y flwyddyn ar S4C. Enw'r gyfres yw 'Plant Alder Hay' ac fel mae'r enw'n awgrymu, dilyn hynt a helynt plant sy'n gorfod mynychu'r ysbyty arbennig hwn yn Lerpwl yw nod y rhaglen. Sioned Morys, gwraig y bardd Twm Morys, gafodd y syniad wedi i'w trydydd plentyn, Begw Elin, orfod cael llawdriniaeth go hegar yn Alder Hay, a hynny ar ei diwrnod cyntaf un yn y byd. 'Ychydig oriau ar ôl cael ei geni, roedd Begw ar ei ffordd i Lerpwl am lawdriniaeth a barodd yn y pen draw am 10 awr. Buom am wythnos wedyn yn yr Adran Gofal Dwys, cyn cael ein trosglwyddo i'r ward babis. Mae Begw rwan yn hogan fach 3 a hanner oed, ac er na fu'r tair blynedd diwethaf yn hawdd, does dim dydd yn mynd heibio nad ydwyf yn diolch i'r Nefoedd fod y fath ysbyty yn bod'.

Cyn geni Begw, mae'n wir dweud nad oedd gan Sioned amcan am yr hyn roedd Alder Hay yn ei wneud, nac ychwaith yr effaith mae cael plentyn, sydd angen llawdriniaeth yno, yn ei chael ar y teulu. 'Pan mae Alder Hay yn galw, rhaid gollwng pob dim a mynd. Oherwydd bod y lle mor bell o adra, rhaid oedd aros dros nos. Roedd y rhaid i 'Mam ddod i warchod Dyddgu a Tudwal, oedd yn 5 a 3 ar y pryd. 'Dwn i ddim beth faswn ni wedi ei wneud hebddi!'

Mae pethau wedi tawelu erbyn hyn. Mae cyflwr Begw - sef Tracheal Oesophageal Fistula - yn golygu fod ei phibell wynt yn wan, ac mae'n dal i gael pyliau o annwyd drwg.

Yr amcan pennaf wrth wneud y gyfres ydi codi ymwybyddiaeth am fodolaeth Alder Hay, a helpu i bobol ddeall yr hyn mae teuluoedd sy'n mynychu'r lle yn gorfod ymdopi ag o. 'Y peth cyntaf rydach chi eisiau ei wneud ar ôl dod adref ydi talu'n ôl mewn rhyw ffordd. Mae llawer yn cynnal nosweithiau codi pres, Y ffordd hawsa' i mi oedd gwneud rhaglenni radio. Mi wnes i ddwy raglen a rhoi elw'r rhaglenni i Ronald McDonald House. Hon yw'r gyfres gyntaf i mi ei gwneud ar y teledu. Mi fydd elw'r rhaglenni yma hefyd yn mynd i Lerpwl.'

Os oes gennych ddiddordeb i gymryd rhan, cysylltwch â chysylltu â Sioned yn Teledu Chwarel ar 01766 523 522, neu 07712531439. Diolch!



Ruby Rose

**Bwtic anrhegion
a chartref hynafol.**

23 Stryd y Bont, Llanbed
01570 422359
rubyroselampeter@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

**Darparu gathau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed

Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1977

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**



Llwyddodd Caitlin Page i gael vest goch Cymru yn traws gwlad ysgolion Cymru a gynhaliwyd ym mharc Dinefwr Llandeilo yn ddiweddar; Caitlin yn gorffen yn 30, ac hefyd bu Daniel Jones yn cystadlu yn ras ysgolion Dyfed yn erbyn Gorllewin Morgannwg.

Caryl Davies yn cael ras dda yn y pedwerydd gyfres o draws gwlad Gwent yng Nghaerfaddon ac yn gorffen yn 49 safle, ac yn gorffen yn safle 52 yn y pumed gyfres yn Aberhonddu, dan 11 Becca Jones 53, dan 13 Grace Page 29, dan 15 Caitlin Page, hefyd bu Caryl Davies, Caitlin Page a Grace Page yn cynrychioli tîm gorllewin Cymru ym mhencampwriaeth treialon traws gwlad y byd - rownd derfynol cyd ranbarthol a thraws y DU yn Birmingham, roedd y cwrs yn galed ac yn mwldyd ofnadwy, cafodd y dair ferch rasmus da iawn.

Hanner marathon cors Caron Tregaron, 4ydd Michael Davies awr 23 munud 14 eiliad, 7fed Daniel Hooper awr 26 munud 16 eiliad, 11fed Steven Holmes awr 27 munud 08 eiliad, 14 - Llewelyn Lloyd awr 27 munud 54 eiliad, 21- Simon Hall awr 30 munud 50 eiliad, 28 - Huw Price awr 32 munud 54 eiliad, 44 - Nigel Davies awr 40 munud 29 eiliad, 46 - Tony Hall awr 40 munud 51 eiliad, 48 - Dee Jolly awr 41 munud 45 eiliad, 56 - Dawn Kenwright awr 45 munud 32 eiliad, 59 - Helen Willoughby awr 45 munud 51 eiliad, 63 - Aneurin James awr 47 munud 18 eiliad, 70 - Eleri Rivers awr 49 munud 43 eiliad, 92 - Ormond Williams dwy awr 10 munud 02 eiliad.

Pencampwriaeth traws gwlad Cymru ym mharc Glanusk Crickhowell, Caitlin Page yn cael ras dda ac ar y lap gyntaf yn 12fed ond yn gweithio ei hun lan ac yn gorffen yn pedwerydd mewn 16:56. Ras dan 13 3000 medr 33 Grace Page 13:28, menwyd hun 6,170 medr 23 Dee Jolly 26:50, 25 Caryl Davies 27:22, 28 Dawn Kenwright 28:31.

Dawn Kenwright yn ennill y categori menywod 55 yn hanner marathon Llanelli, awr 40 munud 50 eiliad, hefyd yn cystadlu oedd Glyn Price, Eleri Rivers a Terry Jones.

Ras 10K Gwyl Dewi yn Llanddewi Brefi 2il Dylan Lewis 36:52, 1sf d40 Michael Davies 37:43, Steven Holmes 38:05, Simon Hall 40:23, Kevin Regan 42:32, 1af menywod Dee Jolly 43:55, Tony Hall 44 munud, 2il menywod 35 Dawn Kenwright 45:25, Helen Willoughby 45:37, Michael Brown 47:08, Mitchell Readwin 49:44, Terry Jones 52:05, Allen Watts awr 43 munud. Yn cystadlu yn ras y plant, Becca Ann Jones 15:59, Thomas Willoughby 19:19, Thomas Aeron Jones 19:53, Daniel Willoughby 20:24.

Dawn Kenwright yn ennill ras menywod 10 filltir Llanelli mewn awr 15 munud 37 eiliadau, a bu Caryl Davies yn ras fynydd Sugar Loaf ac yn gorffen mewn awr 15 munud.

Sul y Pasg roedd ras Teifi 10, 130 o redwyr yn cychwyn y ras a record y byd yn cael ei thorri! Mae'r ras yn cychwyn o clwb rygbi Llanbed, lan i Lanfair Clydogau, nôl i Gellan ac yna nôl i'r clwb. Michael Kallenberg o Glwb Athletau Caerdydd yn ennill y ras mewn 53:14, 2il Stefan Simms a 1af d40 o glwb Fairwater Runners 54:34, 3ydd a 2il dynion agored Nathaniel Lane Caerdydd AAC 54:51. Yn bedwerydd a 'record y byd' yn cael ei thorri, gan Martin Rees o glwb Les Croupiers yn rhedeg y deg milltir cyflymaf gan ddyn dros chwech deg mlwydd oed mewn 55:04. 2il d50 Peter Coles Pontypridd Roadents 56:50, 3ydd d50 Royston Whitehouse Neath Harriers 60:22. 2il d40 Paul Griffiths Neath Harriers 57:30, 3ydd d40 Mathew Hurford Les Croupiers RC 58:15. 3ydd dynion agored Oliver Williams Les Croupiers RC 57:00. Neath Harriers enillodd y tîm. Sally Wilder San Domenico oedd y fenyw gyntaf nôl 63:48, 2il Kelly Morgan Aberdare Valley 64:54, 3ydd Elizabeth Tremlett Trots 68:41, 1af menywod 35 Ana O'Neil Pembs Harriers 64:09, 2il Catherine Bleasdale Trots 71:41, 3ydd Wendy Owen San Domenico 72:41. 1af m45 Jacqueline Brace Bridgend AC 72:06, 2il Rebecca Revell Rhedwyr Emllyn 73:18, 3ydd Helen Willoughby Sarn Helen 74:11. San Domenico enillodd y tîm menywod.



ac yn gorffen yn 68fed, 19 munud 38 eiliad.

Rasmus nesaf y clwb yw ras hwyl Cwrtnewydd ar wyl banc Mai 6ed, ras plant am 12.30yp ac oedolion 1.30yp., a ras Sarn Helen 16 o filltiroedd o Glwb Rygbi Llanbed ar Fai 19eg, ras plant am 10.30yb., oedolion 11yb.

Marathon Llundain a Mark Dunscombe yn gorffen mewn 3 awr 10 munud 40 eiliad, Terry Jones 4 awr 37 munud 04 eiliad ac Ormond Williams 4 awr 58 munud 03 eiliad, ac yn cystadlu i Gymru yn y mini marathon Llundain oedd Caitlin Page

Pencarreg

Aduniad Ysgol Pencarreg

Rwyf wedi derbyn rhagor o alwadau oddi wrth nifer o gyn-ddisgyblion o'r Ysgol fach ac maent yn edrych ymlaen i gwrdd gyda'u ffrindiau bore oes unwaith eto yn y Llew Du, Llanybydder ar nos Sadwrn, 22ain o Fehefin. Cofiwch ddanfôn tâl am y swper at Gwynfor Lewis, Y Felin, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan os gwelwch yn dda. Dewch i rannu'ch atgofion.



Dyma ddau lun anfonwyd ataf gan Barbara a Brenda, merched Ruth Jones, Min y Llyn. Mae'r ddwy ynghyd a'u teuluoedd yn edrych ymlaen at yr aduniad.



Adferiad Iechyd

Dymunwn adferiad iechyd i Billy Hopson ac hefyd i Dic Evans, Pant y fen. Gobeithio'n wir y byddwch eich dau yn gwella gyda'r tywydd a chawn glywed deunod y gog yn galw ar fynydd Pencarreg cyn hir.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn gyda Sara a Jamie Evans a'r teulu wedi i Sara golli ei thad yn ddiweddar. Colled enbyd i Sara ac rydym yn meddwl amdanoch.

Gohebiaeth



The football and rugby team nicknames of Wales, Richard E. Huws

Pwy yw'r Albies, y Beganifs, y Brain, y Chocolates, yr Eosiaid, y Mulod, y Penwaig a'r Piod a sut y cawsant eu henwau? Beth yw'r stori y tu ôl i ffugenwau mwy cyfarwydd fel yr Adar Gleision, yr Hen Aur, y Jacs, y Robiniaid a'r Sgarlets?

Mae ffugenwau wedi bod yn rhan o ddiwylliant pêl-droed a rygbi ers Oes Fictoria, ond hyd yn hyn ni wnaethpwyd astudiaeth fanwl ohonynt. Mae'r llyfr hwn, sy'n cynnwys rhai cannoedd o enwau, yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ffugenwau, ac yn ceisio egluro eu tarddiad. Defnyddiwyd ffynonellau printiedig ac electronig wrth baratoi'r gwaith (yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol modern), ynghyd â chyfweliadau neu ohebiaeth gyda swyddogion clybiau led-led Cymru.

Mae'r awdur yn dod yn wreiddiol o Gaerfyrddin a bu'n gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth am yn agos i ddeugain mlynedd. Ymddeolodd o'i swydd fel Pennaeth Gwasanaethau i Ddarllenwyr yn 2008. Ers degawd mae'n byw ym mhentref Bont-goch, Ceredigion. Mae wedi ymddiddori mewn hanes chwaraeon ac wedi cyhoeddi nifer o lyfrau ar y pwnc yn cynnwys The football and rugby playing fields of Wales (2009), a Caneris melyn Trefeurig (2010). Mae'n gefnogwr brwd o'r Elyrch. Pris y gyfrol yw £7.95

YSWIRIANT FUW

**Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai**



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW,**
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ddiwyddiaeth ariannol, yng nghyd-destun cyfngyngus yswiriant, o dan RHW Cofrestru 309535

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

**Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu,
coed ffrwythau a mwy!**

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Ar gau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

**15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.**

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod
☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwcrus, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pleinamau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llambod Pont Steffan
01570 423156

Cwmann

Sefydliad Aren Cymru

Y swm a godwyd ar Daith
Dros Fywyd, Cymru, fis Mawrth
oedd £820.50. Mae hwn yn swm
anrhydeddus. Diolch i bawb, i
gefnogwyr ar y dydd a phawb a
gasglodd yr arian.

Sefydliad y Merched

Croesawodd Ann Lewis y
Llywydd bawb i gyfarfod mis Ebrill
yn y ganolfan. Cafwyd cyfarfod
ar fusnes y gangen a darllenwyd y
llythyr misol. Derbyniwyd llythyr
oddi wrth Ysgol Carreg Hirfaen yn
diolch am y rhodd yn dilyn y noson
chwarae dominos.

Estynnodd Ann groeso i'n gwraig
wadd am y noson, sef y Cynghorydd
Catherine Hughes o Dregaron a
siaradodd ar y testun "Fy llwybr i'r
Cyngor". Cafwyd noson ddiddorol
wrth iddi ddweud hanes ei bywyd;
wedi ei geni ar fferm yn Nhregaron
a dechrau ei gyrfa yn gweithio yn y
Swyddfa Bost yno. Cafodd ei hethol
yn gynghorydd Tregaron yn 2004
ac yn Gadeirydd y Cyngor Sir yn
2011, y ferch gyntaf i ddal y swydd.
I orffen cafwyd cwis ganddi ar
faterion cyffredinol Cymru. Mae'n
dda dweud i'r aelodau gael y rhan
helaeth o'r atebion yn gywir.

Diolchodd Mary Davies i
Catherine am ein diddanu ac am
agor ein llygaidd i'r gwaith mae'r
Cyngor yn ei wneud. Diolchwyd
hefyd Mary Davies a Bethan Lewis
am ddarparu'r te a bisgedi.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos
Fawrth y 7fed o Fai; y testun fydd
"Cŵn Gofal i Bobl Ddall".

Diolch

Dymuna Evanna Mason, 21
Treherbert ddiolch i bawb am y
cardiau, blodau, anrhegion a'r
galwadau ffôn a dderbyniodd ar
achlysur ei phen-blwydd yn 80oed.

Dymuna Brenda Morgan Gelli
Deg ddiolch am y cardiau, anrhegion
a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn
dilyn triniaeth yn Ysbyty Llanelli.

Marathon Llundain


Rydym yn ymfalchïo fod dau o
Gwmann wedi cymryd rhan yn y
Ras Fawr, sef Terry Jones, 1 Cwrt
Deri a Lyn Thomas, 1 Heol Hathren.
Tipyn o gamp – da iawn chi.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Avril Williams,
Y Fedw ar ddathlu ei phen-blwydd
yn 80oed. Gobeithio i chi gael
diwrnod i'w gofio.

Gwellhad Buan

Dymunwn adferiad buan i'r
canlynol: Sally Davies, Fourwinds
sydd wedi treulio tipyn o amser yn
yr ysbyty a David Jones, Cherry
Pines, a dymunwn wellhad buan i
bawb sydd yn teimlo'n anhwylyd yn
eu cartrefi.



Yr Hybarch Ddr William Strange, Ficer Eglwys Sant Iago, Cwmann, yn
cyflwyno siec am £350 i Mrs Audrey Davies ar ran Parkinsons UK. Dyma'r
elw a wnaed o gyngerdd a gynhaliwyd adeg y Nadolig.

Enillwyr Clwb 225 – Ebrill

Rhiannon Lewis, Tanlan; Ernie
Randell, Blaencwm, Cwmann;
Geraint a Meleri Jones, Islwyn, Stryd
y Bont, Llambod; Alan a Sulwen
Morgan, Rhodfa Glynhebog; Seren
Ling, Glynbedw, Cwmann; Cerdin
Price, Llangwm, Llambod; Danny
Davies, Brynteifi, Cwmann; Carys
a Dylan Davies, 8 Cysgod y Coed,
Cwmann; Mrs Ruthie Williams,
Rhiwlas, Cwmann; Mrs Wendy
Evans, Parc y Rhos, Gorsgoch.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Darren James, 15 Bro Llan,
Llanwnnen; Mrs Brenda Luker, 17
Treherbert, Cwmann; Stephanie
James, 15 Bro Llan, Llanwnnen; Mrs
Ceinwen Evans, Fferm Felinfach,
Cwmann; Mrs Bethan Lewis, 18
Heol Hathren, Cwmann; William
Davies, Blaen-nantcoy, Cellan; Fiona
Jones Llysteifi, Cwmann; Mrs Jean
Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg;
Mr Tom James, Caeralaw, Heol y
Bedw, Cwmann.

Wyres Fach

Llongyfarchiadau i Gwyn a
Tegwen, Wyngarth ar ddod yn
dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf,
merch fach i Dylan a Lucy, sef Elsie
Megan. Dymuniadau gorau i chwi
fel teulu.

Diolch

Dymuna Margaret, Rosemary
a'u teuluoedd ddiolch o galon am
bob cymorth a chydymdeimlad a
ddangoswyd iddynt ar farwolaeth
Eirwen Davies, Ffawydd, Cwmann.
Mam, mam-yng-nghyfraith, mam-gu
a hen-fam-gu annwyl iawn. Diolch
hefyd am bob cyfraniad ariannol a
dderbyniwyd tuag at Apêl Ymchwil
Arthritis UK trwy law Gwilym C.
Price ei Fab a'i Ferched, Llambod
Pont Steffan.

Eglwys Sant Iago

Cynhaliwyd Ffesti'r Pasg yn yr
eglwys ar fore Sul, 14eg Ebrill ar ôl
gwasanaeth Cymun dan arweiniad
ein ficer, yr Hybarch Ddr William

Strange. Agorwyd y festri gyda
gweddi, yna rhoddodd y ficer ei
adroddiad am y flwyddyn gan
ddiolch i'r wardeiniaid gweithgar
a ffyddlon a'r swyddogion am
eu cefnogaeth ymhob agwedd o
waith yr eglwys ac i bawb sy'n
cynorthwyo mewn llawer ffordd
drwy gydol y flwyddyn ac yn sicrhau
dyfodol ein heglwys.

Cafwyd adroddiad y trysorydd
ac ysgrifenyddes. Diolchodd y
ficer iddynt am eu gwaith manwl a
chywir. Dewiswyd swyddogion am
y flwyddyn: Warden y Ficer – Mr
Graham Evans. Warden y bobl – Mr
Danny Davies. Trysorydd – Mr Tom
James. Ysgrifenyddes – Mrs Rosa
Lloyd. Terfynodd y ficer gyda gweddi.

Yn ystod yr un gwasanaeth
cyflwynodd y ficer siec i Mrs Audrey
Davies tuag at Gronfa Parkinson
oddi wrth Eglwys Sant Iago – rhan
o elw a wnaed yng nghyngerdd
Nadolig yr eglwys.

Trwy gydol cyfnod y Grawys
cawsom gyfle fel aelodau a ffrindiau
i ddod at ein gilydd yn y Ficerdy dan
arweiniad ein ficer i drin a thrafod
testunau o'r Beibl.

Bu'r wythnos fawr yn fendithiol
iawn wrth ddilyn llwybrau'r Iesu
gan ddechrau ar Sul y Palmwydd.
Cynhaliwyd gwasanaeth bendithiol
yn yr eglwys yn y bore dan
arweiniad y Parchedig Beti Morris
a phawb yn cofio arwyddocâd
Sul y Palmwydd pan fu'r Iesu yn
marchogaeth i Jerwsalem. Yn ystod
y gwasanaeth bendithiol rhannodd y
ficer groesau palmwydd i bawb oedd
yn bresennol.

Gwnaed y darlleniadau gan Mr
Graham Evans a Mr Danny Davies.
Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen
Evans.

Ar nos Iau Cablyd cynhaliwyd
gwasanaeth y Cymun Bendigaid
yn yr eglwys dan arweiniad ein
ficer i goffâu sefydlu'r Cymun
Bendigaid yn y Swper Olaf. Gwnaed
y darlleniadau gan Mr Tom James a
Mrs Fenella Stange. Yr organyddes
oedd Mrs Ceinwen Evans.

Ar fore dydd Gwener y Grogolith

Cwmann

ymunodd rhai o aelodau Eglwys Sant Iago gydag aelodau Eglwys Dewi Sant, Llanycrwys i gerdded o sgwâr Ffarmers i'r eglwys gan gario'r groes. Cyn dechrau cafwyd gair o weddi gan yr Parchedig Bill Fillery yna cyfle ar yr orymdaith i fyfyrion ar daith boenus yr Iesu i fyny tuag at Galfari - trosom ni. Hefyd fel y trodd yr 'Haleliwia' i 'Croeshoeliwch Ef'. Cafwyd gwasanaeth tawel yn Eglwys Dewi Sant o weddiâu, emynau a darlenniadau. Diolch eleni eto i aelodau eglwys Llanycrwys am y cwpanaid o de a'r byns blasus ar ôl y gwasanaeth - braf oedd cymdeithasu. Yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth o dawelwch a myfyrdod yn Eglwys Pencarreg dan arweiniad yr Parchedig Bill Fillery o 2 hyd 3 o'r gloch a chyfle i feddwl ymhellach wrth edrych ar ffenestri lliw y croeshoeliad sydd yn eglwys Sant Padrig.

Daeth nifer dda ynghyd i wasanaeth y Cymun Bendigaid ar fore Sul y Pasg yn yr eglwys dan arweiniad ein ficer, yr Hybarch Ddr Williams Strange. Croesawodd bawb i'r gwasanaeth a dymunodd Basg Hapus a bendithiol i bawb a'u teuluoedd wrth i ni gadarnhau neges y Pasg gyda'n gilydd.

Cafwyd neges pwrpasol gan y ficer. Gwnaed y darlenniadau gan y ddau Warden sef Mr Graham Evans a Mr Danny Davies. Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen Evans. Ar ôl cyfnod tywyll y Grawys roedd yr eglwys yn llawn goleuni wedi'i haddurno gan flodau'r gwanwyn a gardd y Pasg yn dangos y bedd gwag ac yn cadarnhau neges y Pasg - 'Y mae wedi atgyfodi'. Diolchodd y ficer i bawb am bob cydweithrediad a'u parodrwydd i roi cymorth gyda'r addurno - ond mwy na hynny am eu presenoldeb yn y gwasanaeth.

Gŵyl Gorawl

Cynhelir Gŵyl Gorawl Eglwys i'r Ddeoniaeth yn Eglwys Tregaron ddydd Sul, Mehefin 9fed. Gwasanaeth y plant am 2 o'r gloch a'r oedolion am 6 o'r gloch. Yr arweinyddes fydd Mrs Ceinwen Evans. Bydd yr ymarfer cyntaf yn eglwys Sant Pedr Llambod ar Fai 2il. Dewch i gefnogi'r Ŵyl hon er sicrhau ei dyfodol. Croeso cynnes i bawb.

Ras Hwyl Carnifal Cwmann Dydd Llun Mai 27ain 2013 Cae Pentref Cwmann

Ras y plant 3.30y.p.: Cynradd - 800m ac uwchradd lan i 15 oed - 1500m
Ras yr oedolion 4.30y.p.: 5 milltir



Plant £2; Oedolion £5 (aelod) £7 (eraill)

Cyfraniadau tuag at
"RUNNING WITH NANCY"
CYSTIC FIBROSIS

Ffurflen redeg: www.cwman.btck.co.uk
Cysyllter â Sian Roberts-Jones
01570 423313

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Ar ddiwrnod cyntaf gwyliau'r Pasg cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mhontrhydfendigiad. Daeth cryn lwyddiant i ddisgyblion yr ysgol. Dyma'r canlyniadau: Cân Actol - 1af. Unawd Offeryn Pres Bl. 6 ac iau - Owen Schröder - 2il. Cerdd Dant Bl. 5 & 6 ac Alaw Werin Bl. 6 ac iau - Elin Davies - 3ydd. Unawd Bl. 3 & 4 a Cherdd Dant Bl. 3 & 4 - Nia Morgans - 3ydd

Llongyfarchiadau mawr i bawb, a hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi bod ynghlwm â llwyddiannau'r plant unwaith eto. Dymunwn bob lwc i'r Gân Actol a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Benfro ar ddydd Mercher, Mai 29ain.

Yn ystod y gwyliau aeth nifer o blant yr ysgol i Eisteddfod Capel y Groes i gefnogi a chystadlu. Enillodd y Parti Llefaru a'r Parti Unsain y wobr gyntaf yn y ddwy gystadleuaeth. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Croesawyd pawb yn ôl i'r ysgol am dymor prysur arall ym mywyd Ysgol Cwrtnewydd.

Eleni am y tro cyntaf roedd yr ysgol wedi ymuno yng nghynllun Bags2School. Cynllun lle oedd teuluoedd yn rhoi hen ddillad a theganau mewn bagiau ac yn dod â nhw i'r ysgol. Yn ôl y nifer helaeth o fagiâu a ddaeth i mewn roedd yn amlwg bob pawb wedi bod yn brysus dros y gwyliau yn cael 'spring clean'! Diolch i bawb a wnaeth gefnogi'r fenter.

Ar ddydd Gwener Ebrill 19ed daeth sioe 'Gweithdy Aled Ailgylchu a Ted Taclus' i'r ysgol. Braf oedd croesawu Ysgol Llanwenog i ymuno â ni. Cafodd y plant wled yn canu gyda'r Brodyr Gregory ac yn gwyllo'r sioe. Yn sgil bod yn rhan o'r sioe bydd hyn yn ein helpu ni i gyd-weithio â'r prosiect ailgylchu gyda'r Ysgolion tramor sef Ffrainc, Sbaen ac Iwerddon.

Ar yr un bore aeth pedwar o blant yr ysgol sef Owain Jones, Elin Davies, Owen Schröder a Zachary Wroe i gystadlu mewn Gêm 24 yn Ysgol Bro Pedr. Llongyfarchiadau mawr i'r pedwar am ennill a dymunwn bob lwc iddynt yn cynrychioli cylch Llanbed yn ystod mis Mehefin. Diolch yn fawr i Ysgol Bro Pedr am y croeso a'r bisgedi.



Tri aelod o dîm buddugol Gêm 24 (mae Zachary yn absennol o'r llun).

Dewch yn llw eleni eto i gefnogi ein Gweithgareddau Calan Mai ar Fai 6ed. Bydd y diwrnod yn cychwyn am 12.30yp gydag araith ein llywydd sef Mrs Wendy Davies, Cei Newydd (cyn-aelod o staff yr ysgol), ac i ddilyn bydd ras y plant cynradd. Os am unrhyw wybodaeth bellach er enghraifft ffurflen rhedeg, cysylltwch â Mrs Hannah Thomas ar 01570434273.

Pen-blwyddi arbennig

Dathlodd Mrs Catherine Davies, Glennydd ei phen-blwydd yn 80 oed yn ystod y mis. Gobeithio eich bod wedi joio'r dathlu ymysg y teulu oll.

Hefyd, dathlodd Huw Rees, Y Felin, (Bwydydd Rees) ben-blwydd arbennig yn ystod mis Ebrill.

Cydymdeimlo

Danfornwn ein cydymdeimlad dwysaf â Dilys a Ron Davies, Clarence a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Hannah Averina Jones ym Mro Henllys, Felinfach.

Diolch

Hoffai Catherine, Glennydd ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80oed.

Bachgen bach

Llongyfarchiadau i Elen a Llyr, 2 Yr Hen Ysgol, ar enedigaeth mab bach. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad,
Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriol a
Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffon: 423300 Facs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merch.

Cellan, Llambod

01570 422895

C.Ff.I Ceredigion

Cynhaliwyd diwrnod llawn dop o gystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg Cymru ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanfair ym Muallt ar ddydd Sul, Mawrth 31ain. Cafodd Sir Ceredigion ddiwrnod arbennig a llawer o aelodau yn dod i'r brig.

Canlyniadau: Darllen Iau Cymraeg – 2il aelodau'r tîm oedd Meinir Davies a Iwan Evans o Glwb Llanwenog ac Alwen Morris o Glwb Llangwryfon. Adran Iau Cymraeg – 2il aelodau'r tîm oedd Sioned Evans, Lauren Jones a Meleri Davies o Glwb Llanwenog. Gwnaeth Sioned yn arbennig a chipio'r cwpan am y siaradwr gorau yn yr adran. Seiat Holi Adran Ganol Cymraeg – 3ydd aelodau'r tîm oedd Elin Jones, Sioned Davies a Sioned Hatcher o Glwb Llanwenog a Meirian Morgan o Glwb Llangeitho. Dadl Adran Hyn Cymraeg – 1af aelodau'r tîm oedd Einir Ryder a Gethin Richards o Glwb Pontisan, Luned Mair o Glwb Llanwenog a Catrin Jones o Glwb Mydroilyn. Seiat Holi Adran Ganol Saesneg – 1af aelodau'r tîm oedd Meirian Morgan o Glwb Llangeitho, Harry Davies o Glwb Mydroilyn, Dafydd Morgan a Lisa Jones o Glwb Pontisan. Ar ddiwedd y cystadlu Sir Ceredigion oedd yn fuddugol yn adran Siarad Cyhoeddus Gymraeg.

Ar yr un diwrnod cynhaliwyd y Cwis Cymraeg Cymru, mi gafodd y sir cryn lwyddiant gan gipio'r wobr gyntaf. Aelodau'r tîm oedd Enfys Hatcher, Elin Jones a Luned Mair o Glwb Llanwenog ac hefyd Einir Ryder o Glwb Pontisan. Cyhoeddwyd canlyniadau cystadleuaeth y Cwib ac eto daeth Ceredigion i'r brig gyda Chiwb Clwb Llangeitho yn fuddugol.

Noson Cymdeithasol De y Sir - Ymgasglodd aelodau iau y sir yn Neuadd Rhydlewis am noson Bingo dan ofal Meinir Green. Cafwyd noson hwylus yn cymdeithasu a joio. Diolch o galon i Meinir am drefnu'r noson.



Ymunodd aelodau clybiau C.Ff.I Ceredigion â Gwenno Griffith, Cadeirydd C.Ff.I Cymru i gerdded pwynt uchaf Ceredigion sef mynydd Pumlumon. Mae Gwenno wrthi yn cerdded pwynt uchaf pob sir er mwyn codi arian i elusen C.Ff.I Cymru sef Ymchwil y Galon. Cafwyd diwrnod i'w gofio.

Cynhaliwyd Gala Nofio blynyddol y sir ym mhwl nofio Aberaeron. Ar ôl noswaith o gystadlu brwd Clwb Felinfach oedd yn fuddugol, yn ail oedd Clwb Pontisan ac yn drydydd oedd Clwb Llanwenog. Emlyn Lewis o Glwb Pennant enillodd gwpan Alison Jones am y nofiwr cyflymaf.

Dymunwn pob lwc i Gwennan Davies o Glwb Llanwenog a fydd yn cynrychioli Cymru ar lefel cenedlaethol yng nghystadleuaeth yr Aelod Hŷn yn y Penwythnos yn Blackpool.

C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin

Ar nos Wener y Grogllith cynhaliwyd Dawns yn Nhafarn yr Hudd Gwyn yn Llandeilo er mwyn cyhoeddi Llysgenhades a Dirprwyon C.Ff.I. Sir Gâr am 2013-14.



Llysgenhades: Bethan Griffiths, Dyffryn Cothi (Canol); Dirprwyon: (chwith i dde) Alys John, Hendy-gwyn ar dâf, Llinos Thomas, San Ishmael, Delyth Jones, Llanarthne a Rhian Davies, Llanymddyfri

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad, Cyfoeth Naturiol Cymru



Gwanwyn y Gwenyn

Mae arwyddion y Gwanwyn wedi bod yn hwyr yn ymddangos eleni, gyda chymdogion o'r Alban yn sôn wrthyf fod y Cennin Pedr fis yn hwyr yn blodeuo yn eu hardal hwy. Mae hyn wedi cael effaith enfawr ar y bywyd gwyllt yn ein plith, ac yn enwedig ar weny yn a phryfed peillio eraill. Bydd y garddwyr a'r amaethwyr yn eich plith yn sylweddoli pwysigrwydd yr anifeiliaid arbennig yma. Dychmygwch fyd heb flodau, ffrwythau neu hyd yn oed goffi a siocled. Mae gwenyn yn darparu nifer o wasanaethau ar ein cyfer. Maent yn creu mêl a chwyr gwenyn yr ydym yn eu defnyddio'n uniongyrchol, ond maent hefyd yn gyfrifol am beillio, gan sicrhau bod cnydau o wenith, ffrwythau a chnau yn cael eu ffrwythloni. Dyma yw'r gwasanaethau anuniongyrchol a ddarperir ganddynt, a'r casgliad cyfan yma o wasanaethau yw'r hyn y mae amgylcheddwyr yn cyfeirio ato pan maent yn sôn am wasanaethau ecosystemau. Diolch i waith gwenyn a phryfed eraill, yr ydym yn gallu mwynhau'r wledd y mae natur yn ei darparu ar ein cyfer.

Yr oedd y llynedd yn flwyddyn galed i'r gwenyn. Wrth sgwrsio gyda gwenynwr o Sir Fynwy yr wythnos diwethaf, soniodd fod ei gynhaef mêl wedi cwmpo o 120 pwys y flwyddyn cynt i ddim ond 40 pwys y llynedd. Dywedodd hefyd ei fod yn cadw pump o gychod gwenyn a bod yna ddau gwch wedi diflannu'n llwyr. Doedd ganddo ddim syniad pam yr oedd y gwenyn wedi diflannu. Proffwyddodd Albert Einstein petai gwenyn yn diflannu y byddai dyn yn ei ddilyn ymhenn rhai blynyddoedd. Y mae'r broblem wedi dechrau dod i'r amlwg yng Nghaliffornia, lle mae'r cnwd almon yn gwbl ddbynnol ar filiynau o gychod gwenyn sy'n cael eu rhentu dros gyfnod y peillio, gan fod nifer y gwenyn sy'n gynhenid i'r ardal wedi cwmpo'n sylweddol. Ddechrau mis Chwefror bob blwyddyn, y mae tua 1.6 miliwn o gychod yn cynnwys 48 biliwn o wenyn yn disgyn ar ardal oddeutu dwywaith maint Eryri, ac y maent yn aros yno am bedair wythnos i beillio'r coedydd almon.

Er mwyn ceisio sicrhau dyfodol gwell i'r gwenyn, mae yna nifer o bethau y gallwn ni eu gwneud i'w helpu yn ein gerddi. P'un ai ydych yn defnyddio'r ardd i fwynhau'r awyr agored neu i blannu llysiau, y mae modd i ni i gyd fwynhau plannu ar gyfer gwenyn, ta beth yw maint ein gerddi a'n potiau!

Pan fyddwch yn plannu ar gyfer gwenyn, mae angen sicrhau bod gennych blanhigion sy'n darparu neithdar i fwydo'r gwenyn hŷn a phaill i fwydo'r rhai ifanc. Mae'r rhan fwyaf o flodau deuben yn ddiwerth i'r gwenyn gan eu bod yn rhy goegwych ac mae nifer wedi cael eu bridio heb rannau atgynhyrchiol.


Rhowch gynnig ar blannu rhai o'r canlynol yn eich gerddi ar gyfer y tymor sydd i ddod:

Perlysiau - Lafant, teim, cennin syfi, mintys, salvia, saets.

Blodau'r haf sy'n blodeuo'n gynnar - Troed y golomen, astilbe, clychlys, llysiau'r cwlwm, ytbys fythol llydanddail (lathyrus latifolius), ffenigl, bysedd y cŵn, mynawyd y bugail, pumnalen, trwyn y llo, stachys, cribau'r-pannwr, pannog.

Blodau'r haf sy'n blodeuo'n hwyr - Llysiau'r angel, aster, coed mêl, marchysgall, glas yr ŷd, dahlias (un rhes o betalau), llysiau'r ehedydd, eryngium, coed drops, ysgall pengrwn (echinops), grug, iorwg, pentstemonau, glas yr ŷd, sedum, ferfain yr Ariannin (verbena bonariensis).

Ceir rhestr lawn o blanhigion sydd o fudd i wenyn ar wefan y Royal Horticultural Society – www.rhs.org.uk



Os ydych yn chwilio am rhywbeth i'w wneud gyda'r plant dros ŵyl y banc, beth am roi cynnig ar adeiladu 'Gwesty Gwenyn'. Ceir cyfarwyddiadau ar sut i adeiladu 'Gwesty Gwenyn' syml ar wefan Buglife – www.buglife.org.uk. Os ydych yn teimlo'n fwy hyderus, teipiwch 'Bee Hotel' yn Google Images ac mi gewch chi ddigon o ysbrydoliaeth i gynllunio eich gwesty eich hun. Gwnewch yn

siŵr eich bod yn gosod y 'Gwesty Gwenyn' mewn man sy'n dal yr haul, yn wynebu tua'r de os oes modd.

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Llambled a'r Cylch newydd lansio project 'Mae Gwenyn yn Hyfyd' ac y byddant yn rhedeg cyrsiau ar gyfer unigolion â ddiddordeb mewn cadw gwenyn. Cysylltwch â Sandra Lane am ragor o wybodaeth: sandra@lanesframes.co.uk

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Cychwynnodd tymor tripiâu'r haf ym mis Ebrill â thaith i dŷ a gerddi Dyffryn ger San Niclas ym mro Morgannwg. Mae'r lle erbyn hyn yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac fe agorwyd y tŷ i'r cyhoedd dros benwythnos y Pasg. Mae'r gwaith o adnewyddu'r lle yn dal i fynd yn ei flaen, ond braf oedd cael gweld yr hyn oedd eisoes wedi'i gyflawni, gan edrych ymlaen am ymweliad arall o bosib pan fydd y lle wedi ei ddodrefnu unwaith yn rhagor.

Manteisiwyd ar y diwrnod braf i gerdded yn hamddenol trwy'r gerddi. Ychydig yn gynnwys oedd hi o ran blodau, ond roedd y grug yn ei ogoniant ar un o'r llethrau, a'r tawelwch yn llesol.

Teithiwyd yn ôl drwy Ben-y-bont ar Ogwr i ganolfan siopa McArthur Glen, a chael awr yno cyn dechrau am adre. Arhoswyd yn Llangennech am bryd o fwyd blasus cyn gorffen y daith.

Bydd y trip nesaf yn mynd i Gastell Powis ar yr 8fed o Fai. Enwau i Yvonne 480590 cyn gynted â phosib.

Eglwys Llanwenog

Diolch i'r Ficer Suzy Bale am drefnu cyfres o nosweithiau diddorol ac addysgiadol yn ystod cyfnod y Grawys. Bu llawer o drafod a dadansoddi ar y pynciau dewisedig, a mwynhawyd y profiad yn fawr.

Cynhaliwyd gwasanaeth Nos Iau Cablyd dan arweiniad y Ficer, hyn yn arwain at ddydd pwysicaf yn nghalendr yr Eglwys, sef Dydd Sul y Pasg. Daeth nifer o aelodau a ffrindiau ynghyd i wasanaeth y Cymun Bendigaid i ddathlu a chlodfori Atgyfodiad Crist Iesu. Diolch i'r gwragedd a fu'n addurno'r Eglwys â gosodiadau celfydd o flodau, ac i bawb a gyfrannodd yn mhob modd er mwyn creu naws gogoneddus yr Ŵyl.

Collodd dau deulu anwyliad yn ddiweddar; cydymdeimlwn â theulu Mr Tim Walker, Tynffynnon, a hefyd â Geoff Bone, Ochr-nant a'r teulu o golli Moira wedi cystudd hir a blin.

Dymunwn wellhad i bawb sydd yn dioddef anhwylder naill ai adref neu yn yr ysbyty, a chofiw'n amdanynt yn ein gweddïau.

Clwb 100 mis Mawrth: 1. Caroline Davies, Llysderi; 2. Wendy Mellor, Rhiwson Isaf; 3. Glenys Williams, Llanybydder.

Diolch

Dymuna Carwyn Gwarcoed Einon ddiolch i'r cymdogion, teulu a ffrindiau am eu consyrn amdano yn ystod ei salwch yn ddiweddar. Diolch yn fawr i chi.

Ysgol Llanwenog

Croeso cynnes i ddisgyblion newydd i'r ysgol sef Madi Potter a Finley Piggott. Gobeithio byddant

yn hapus iawn yn Ysgol Llanwenog.

Llongyfarchiadau enfawr i Chloe Marie Jones am ennill y drydedd wobwr yn adran gelf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Cafodd y wobwr am waith creadigol 2D i blant ym mlwyddyn 6 ac iau. Bydd ei gwaith yn cael ei arddangos yn y babel Gelf a Chrefft ar faes yr Eisteddfod yng Nghrymmych fis Mai. Da iawn ti Chloe.

Aeth plant yr ysgol i gyd i Gwrtnewydd i ymuno â'r disgyblion yno ar gyfer sioe deithiol y Brodyr Gregory. Prif neges y sioe oedd ailgylchu. Cyflwynwyd y neges mewn ffordd swynol a bywiog. Roedd y plant wrth ei bodd yn gwrandao ar y caneuon ac yn mwynhau cael bod yn rhan o'r perfformiad.

Cynhaliwyd noson arbennig yn yr ysgol er mwyn lansio llyfr newydd Barbara Davies sy'n dwyn y teitl Y Faciwi. Bu Barbara yn athrawes yn ysgol Llanwenog am naw mlynedd a hanner ar ddechrau'i gyrfa.

Estynnwyd croeso i bawb gan Miss Heddwyn Davies, yna bu'r plant yn canu caneuon amrywiol. Diolch i Mrs Eirlys Jones ac i Mrs Elonwy Davies am gyfeilio. Llongyfarchiadau hefyd i Niall O'keeffe a chwaraeodd y drymiau yn wefreiddiol i'r gân Sosban Fach tra roedd y plant yn canu. Dyma ddechreuad rhywbeth mawr gobeithio. Bu rhai o'r plant yn darllen darnau allan o'r llyfr a bu eraill yn adrodd darn o farddoniaeth wedi'i ysgrifennu gan Mr Hywel Roderick yn arbennig ar gyfer y noson. Cyflwynwyd y gerdd i Barbara Davies wedyn cyn ei gwahodd i annerch y gynulleidfâ. Diolch yn fawr i'r Parch Goronwy Evans hefyd am ei eiriau caredig ac am ei ddiolchiadau ar ddiwedd y noson. Cafwyd noson hwylus a lansiwyd y llyfr yn llwyddiannus.

Hoffem ddiolch yn fawr i Mr Bracy am ei waith caled wrth adnewyddu ac ychwanegu at ardd yr ysgol. Mae'r plant eisoes wedi bod wrthi yn paratoi'r ardd yn barod ar gyfer plannu llysiau a ffrwythau yn y dyfodol agos.

Hoffem fel staff longyfarch Ms Angharad Hull ar ei swydd newydd. Cafodd ei phenodi fel arweinydd Cylch Meithrin Felinfach. Diolch yn fawr iddi am ei chyfraniad hynod werthfawr i'r ysgol yn ystod y tair mlynedd diwethaf. Bydd y plant a'r staff yn gweld ei heisiau yn fawr a dymunwn yn dda iawn iddi yn ei swydd newydd.

Dyddiad i'w gofio – Bydd Ffair Haf yr Ysgol yn cael ei gynnal eleni ar Nos Wener Mehefin 28ain am 4 o'r gloch.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i Marian Morgan, Rhyd-y-felin sydd wedi dechrau ar ei swydd newydd gyda



Sioned Fflur Evans, Glantrenfach, ac aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog oedd y siaradwr gorau dan 16 oed yng Nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymru. Enillodd hefyd gwpan yr unigolyn gyda'r pwyntiau uchaf yn yr adran.

Chyngor Sir Gâr. Gadawodd ei swydd yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ddiwedd tymor y Gwanwyn ar ôl treulio blynyddoedd lawer yno.

Diolch

Dymuna Mrs Mair Davies, Dolwerdd, ddiolch i bawb am yr holl gonsyrn amdani, drwy ddanfôn cardiau, blodau, anrhegion a galw i'w gweld tra bu yn Ysbyty Glangwili, Cartref Maes y Felin ac hefyd wedi iddi dychwelyd i'w chartref yn dilyn anffawd rai wythnosau yn ôl. Gwerthfawrogrir popeth yn fawr iawn.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Daff Davies, Brynteg Cottage yn teimlo ychydig yn well yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ystod y mis.

65 oed

Dathlodd Gareth Davies, Dolgader ei ben-blwydd yn 65 oed yn ystod mis Ebrill – roedd y balŵns a'r fflag yn edrych yn bert iawn ar fore'r pen-blwydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Rose, Mark a'r teulu, Llwynrhos ar farwolaeth ei mam sef Eirwen Davies o Gwmann yn ddiweddar. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.



Dymuniad Geoff Bone a'r teulu oll yn Ochr y Nant yw diolch yn ddiffuant iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddo adeg colli gwraig, mam a mam-gu annwyl iawn, sef Mrs Moira Bone. Diolch o galon hefyd i bawb a ddaeth i'w hangladd yn Eglwys Llanwenog ac i'r Amlogfa yn Aberystwyth.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644



Enw: Caryl Davies
Oed: 25
Pentref: Cwmann
Gwaith: Meithrinfa Y Dyfodol
Teulu: Philip ac Ann (dad a mam)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
 Mynd allan gyda dad-cu yn y fan groser, a helpu mam-gu yn y siop.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
 Rosie and Jim.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
 Pan oeddwn yn ffilmio ar y gystadleuaeth 10 Jonathan, rhewais ar dop bariau'r assault course, methais fynd ymlaen na nôl a dim ond gweld y ddaear o danaf i.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
 I barchu teulu a phobl.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
 Spice Girls

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
 Cael tantrym a chnoi mam ar ei braich pan oeddwn yn bedair oed.

Pwy yw dy arwyr?
 Kelly Holmes

Beth yw dy arbenigedd?
 Gofalu ar ôl plant bach o bum mis oed hyd bedair oed.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
 Gweld y plant yn datblygu a thyfu.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
 Dim llawer o bethau i'w wneud. Mae'n rhaid mynd ymhellach i bopeth.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
 Cymraeg.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
 Person celwyddog a diamynedd.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000



mewn awr?
 Gwyliau a siopa dillad.

Beth sy'n codi ofn arnat?
 Nadroedd, fi yn dwli ofan nhw.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
 Dydd Sadwrn diwethaf yn ras fynydd Sugar Loaf.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
 Pan gefais fy nihuno prynhawn Sul pan oeddwn yn cysgu, ar ôl bod allan nos Sadwrn a gartre yn gynnwys ar fore Sul.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
 I gael rhedeg gyda'r Dorch Olympaidd yn Nhre Taliesin ym Mai 2012.

Ac yn bersonol?
 I gael mynd i'r gemau Olympaidd yn Llundain 2012, a gweld Mo Farrah, tîm merched America yn torri record y byd yn y ras gyfnewid 100 medr ac Oscar Pistorius. Hefyd i gael fy ffilmio ar

ras yr Wyddfa yn 2008 am mai fi oedd yr ieuengaf yn rhedeg y ras.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
 Rhedeg, rhedeg a rhedeg.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
 Hapus, caredig a thawel.

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
 Mae mam-gu yn dweud mod i'n special.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
 Mazda 2 sport, gwyrdd.

Beth yw dy hoff wisg?
 Ffrog.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
 Chinese ac Indian

Beth yw dy ddiod arferol?
 Archers a lemonêd.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
 Jessica Ennis

Beth yw dy hoff arogl?
 Daisy, peraroglau.

Sut wyt ti'n ymlacio?
 Cael gwydred o win pinc.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
 373

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?
 10

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
 Trainers, oriawr garmin a ffôn symudol.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
 Pasta

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
 Clwb rhedeg Sarn Helen

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
 Prynu car

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
 Teulu

Y gwyliau gorau?
 Mynd gyda fy ffrindiau i Majorca.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
 Rhedeg tair copa Prydain: Ben Newis, Scafell Pike a'r Wyddfa

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
 Marathon Everest, mynd i Canada i weld teulu, a gwyliau i'r Carriibbean.

Arferion gwael?
 Cnoi gwinedd.

Pa sioc alli di roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?
 Roeddwn i ond yn pwysu 3lb 12owns pan gefais fy ngeni a dau fis cyn amser!

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
 Edrych ar fy ffôn symudol.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
 Cyfeiriad _____
 Cod post _____
 Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
 I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	3				9	5
			2	3		6
4	2		5			1
3			5		9	
	7	2			5	8
			8	2		4
7				8		4
	1		3	7		
9		4				5

Atebion Swdocw mis Ebrill:

Llongyfarchiadau i:
 Hugh Evans, Coedparc,
 Llanybydder, ac i bawb arall am gystadlu:
 Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder;
 Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder;
 Bethan Williams;
 Neuadd Fryn, Llanybydder ac Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder.

2	1	3	7	4	5	6	8	9
9	4	8	6	2	1	3	7	5
7	5	6	3	8	9	2	1	4
1	3	7	2	5	6	9	4	8
8	6	9	1	3	4	5	2	7
5	2	4	8	9	7	1	6	3
3	7	5	4	1	2	8	9	6
6	9	1	5	7	8	4	3	2
4	8	2	9	6	3	7	5	1



Annwyl Ddarllenwyr,

Ym mis Ebrill roedd hi'n flwyddyn ers i mi ddechrau yn fy rôl fel Comisiynydd y Gymraeg. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gysylltodd â mi yn ystod y flwyddyn. Trwy rannu eich profiadau, a thrwy gyflwyno cwynion am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg, ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau, mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'n stondin yn sioeau'r haf, fe wnaethoch gyfraniad gwerthfawr i lwyddiant y gwaith a fy ngalluogi i a'm tîm o swyddogion i adnabod y materion sydd o bwys i siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o Gymru.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn mewn ffigyrau:

- Delio â 466 o achosion gan unigolion oedd yn teimlo bod ganddynt le i gwyno am wasanaeth Cymraeg
- Croesawu dros 300 o bobl i'n cyfarfodydd cyhoeddus
- Derbyn dros 260 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar safonau mewn perthynas â'r Gymraeg
- Dosbarthu dros 10,000 o fathodynau 'Iaith Gwaith' sy'n dangos bod person yn siarad Cymraeg

Yn ein hail flwyddyn, byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn ac yn gweithredu i herio sefyllfaoedd lle caiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Yr haf hwn bydd stondin y Comisiynydd yn ymweld ag Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro, y Sioe Fawr yn Llanellwedd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych. Os ydych yn mynychu'r sioeau hyn, dewch draw i'n gweld i drafod eich profiadau a chyflwyno eich cwynion, derbyn bathodyn Iaith Gwaith a thafenni gwybodaeth am waith a rôl y Comisiynydd a hefyd er mwyn cael cyfle i dderbyn gwybodaeth a bwyd i mewn i'r ymholiad statudol arbennig yr ydym yn ei gynnal er mwyn edrych mewn manylder ar y defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd.

Yn gywir

Meri Huws Comisiynydd y Gymraeg

post@comisiynyddygymraeg.org 0845 6033 221

Bwrlwm Bedwen yn Nyffryn Aeron

Glywsoch chi am Bedwen Lyfrau? Gŵyl deithiol a gynhelir ar Sadwrn cyntaf Mai yw hon sy'n cynnig difyrwch i'r teulu cyfan. O helpa drysor, gemau, gweithdai a straeon plant i sesiynau ag awduron llyfrau oedolion i godi'r llen ar eu cyfrolau. Eleni Dyffryn Aeron a Theatr Felinfach yw lleoliad y Fedwen ar 4 Mai ac o 10.30 y bore tan 3.30 y pŵn bydd yna rywbeth at ddant pawb yn yr ŵyl a drefnir gan Gwlwm Cyhoeddwy'r Cymru.

Mae yna flas Ceredigion ar yr arlwy eleni. Un sydd â'i wreiddiau'n ddwfn ym mawng y Mynydd Bach yw Idris Morgan, awdur Dyddiau Cŵn, ac yn y bore bydd Lyn Ebenezer yn ei holi. Un a ddaeth i'r sir fel faciwl o blits Lerpwl i Dalgarneg yw Barbara Davies a bydd hi'n rhannu ei straeon gyda Catrin Beard a Thelma Adams, Caws Cenarth a'r Parch Beti Wyn James, sydd newydd gyhoeddi A Wnaiff y Gwagedd? am ei phrofiad yn y weinidogaeth. A'r ŵyl yn Felinfach, bydd Euros Lewis yn ei astudiaeth ar wreiddiau a hanes sefydlu Theatr Felin-fach, Agor y Llen ar y Theatr Gymraeg, yn mynd i'r afael â'r cwestiwn 'Ysgariad yr iaith Gymraeg oddi wrth ei diwylliant yw prif berygl yr oes'.

Pennaeth y Theatr a'r Campws yn Felinfach yw Dwynwen Lloyd Llywelyn ac yn ogystal â gweithdy i'r plant yn seiliedig ar Henri Helynt bydd hi'n rhoi blas i'r plant ar Yr Wmp o Blwmp, un o lyfrau Cyfres Lolipop i blant 6-8 oed. Arian Piced Morgan gan Rhian Mair Evans yw un arall o deitlau'r gyfres liwgar a rhoddir lolipop i bob plentyn ddaw i'r sesiwn. Nofel gyntaf yr awdures Angharad Edwards o Aberystwyth yw Deffro am fampirod, cariad a chyfrinachau yng nghefn gwlad. Plant hŷn yw ei chynulleidfya bydd modd iddyn nhw hefyd ddarganfod mwy am anturiaethau Dylan Rees yng nghwmni'r awdur profiadol Elgan Philip Davies o Bow Street wrth i drydydd teitl cyffrous y drïoleg gael ei chwblhau.

Pentre yng Ngheredigion yw Blaenpennal ac yno ym Mhentre Bach mae rhai o hoff gymeriadau'r plant yn byw. I ddatlu cyhoeddi'r pecyn dysgu darllen cynhwysfawr, Pobl Pentre Bach, bydd Pili Pala (Lowri Steffan) yno i ddarllen straeon a gall plant ddweud helô wrth Sali Mali. Daw Peppa Pinc a George draw i gyfarfod y plant ac os am gadw'n heini gellir ymuno â Heini, seren Cyw ar S4C, a gwneud gweithgareddau awyr agored Chwarae'r Gêm gyda Mair Tomos Ifans. Wyddoch chi bod yna fôr-ladron drws nesaf? Bydd angen i'r plant fynd ar helpa drysor i ddod o hyd iddyn nhw.

Ymunwch â chyhoeddwy'r Cymru yng ngweithgareddau Bedwen Lyfrau 2013 sy'n rhad ac am ddim i blesio pob Cardî!



Tîm pêl-droed bechgyn Ysgol Bro Pedr yn dod yn ail agos yng nghystadleuaeth sirol yr Urdd. Da iawn chi fechgyn, Guto, Dewi, Bryn, Joseph, Rhys, Iestyn, Jac a Daniel a diolch i Mr John am hyfforddi.

Gwnaeth timau'r ysgol yn arbennig o dda yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd yn Aberystwyth. Cyrhaeddodd tîm y bechgyn y rownd derfynol yn erbyn Llandysul ac roedd hi'n hynod o gyffrous. Roedd hi'n gyfartal ar ddiwedd y gêm a chafwyd amser ychwanegol a honno hefyd yn gorffen yn gyfartal. Rhaid oedd cymryd ciciau cosb a chollwyd y gêm o drwch blewyn, 5 i 4. Llongyfarchiadau i bob un o'r bechgyn sef Dewi, Guto, Rhys, Bryn, Iestyn, Daniel, Joseph, Jac ar ddod yn ail agos iawn ac i Mr John am eu hyfforddi. Da iawn hefyd i dîm y merched sef Lucy, Iola, Samantha, Chloe, Lauren, Narissa, Elan, Aoife am ennill un gêm, colli un a chael dwy gêm gyfartal a diolch i Mrs Costello am eu hyfforddi. Daliwch ati ferched.

Ymfalchïwn bod pump eitem o'r campws iau yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a diolch i bawb a fu wrthi'n paratoi'r disgyblion. Pob hwyl i Ffion, Parti Cerdd Dant y dysgwyr, y gerddorfa, y grŵp dawnsio disgo a'r grŵp dawnsio cymysg.

Llongyfarchiadau i ddosbarth 5 Llew am ddangos y gwelliant mwyaf yn eu presenoldeb y tymor diwethaf ac i flwyddyn 5 Cothi a 2 Aeron am y presenoldeb mwyaf cyson.

Cafwyd cystadlu brwd ymhlith tîm blwyddyn 6 yr ysgol sef Bryn, Rhys, Lydia a Theo â ysgolion lleol eraill wrth chwarae gêm 24. Daeth yr ysgol yn ail a llongyfarchiadau i dîm Cwrtnewydd am ennill.

Diolch i mam Leo am ddod â chwnigen i'r ysgol i ddisgyblion blynyddoedd 1 a 2 i gael cyfle i'w mwytho a siarad amdani fel rhan o'r thema y tymor yma.



Yr adran Hanes: Ym mis Chwefror bu Joe Jenkins a Ffion Dale o flwyddyn 12, ynghyd â Mr Rhydian Jones o'r adran Hanes a nifer o ddisgyblion eraill o ysgolion Cymru ar daith i Wlad Pwyl er mwyn ymweld â gwrsyll angau Auschwitz - Birkenau. Yn ystod y daith cafwyd cyfleoedd i ymweld â Synagog yn nhref Krakow cyn teithio ymlaen i Auschwitz a Birkenau. Bu cyfle i weld pentyrrau enfawr o nwyddau ac eiddo'r lldewon a ddanfonwyd yno. Cafodd y criw eu tywys o amgylch yr adeiladau, y siambrau nwy, yr amlogfa a mannau byw a gweithio'r carcharorion gan arbenigwyr lleol. Cafwyd hefyd gyfle i gymryd rhan mewn seremoni coffa gan y Rabi Marcus wrth i'r haul fachlud. Dyma daith drawiadol a bythgofiadwy a dysgwyd llawer am hanes yr Ail Ryfel Byd a'r digwyddiadau erchyll yma. Bydd Joe a Ffion yn rhannu'u profiadau mewn gwersi TGAU Hanes yn yr wythnosau nesaf.

Ffair UCAS: Ar fore Mercher, Ebrill 18fed, bu disgyblion blwyddyn 12 mewn Ffair UCAS ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, campws Caerfyrddin. Cafodd pob disgybl gyfle i siarad â chynrychiolwyr o wahanol brifysgolion, casglu gwybodaeth am wahanol gyrsgiau a mynychu sesiynau ar amryw o bynciau gan gynnwys ffioedd myfyrwyr. Mae'r disgyblion yn sicr wedi elwa'n fawr iawn o'r ffair.

Arholiadau: Pob dymuniad da i'r myfyrwyr sy'n eistedd arholiadau allanol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Llanwnnen

Capel y Groes

Daeth cynulleidfya dda ynghyd ddydd Sul y Pasg ar gyfer Oedfa Undebol y chwech capel. Roedd y gwasanaeth dan ofal Dafydd Iwan a chafwyd neges bwrpasol ac amserol ganddo. Ceinwen Roach oedd yn chwarae'r organ a gwnaed y casgliad gan Haydn Richards a Gwyn Jones.

Ysgol Llanwnnen

Bu nifer o ddisgyblion yr adran iau draw yn Eisteddfod Capel y Groes eleni lle buont yn cynrychioli'r ysgol yn y cystadlaethau Parti Unsain a'r Parti Llefaru. Braff oedd dod o'r Eisteddfod wedi cipio dwy ail wobwr a da iawn i bawb fu'n cystadlu.

Ar nos Wener braff, cynnes, aeth nifer o rieni, plant a ffrindiau'r ysgol am dro o amgylch Neuadd, Llanwnnen er mwyn codi arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Cafwyd amser hyfryd, gyda phawb o bob oedran yn cydgerdded a chymdeithasu. Rydym eisoes wedi codi swm sylweddol ac mae'r arian yn dal i lifo mewn. Diolch yn fawr i bawb oedd wedi cefnogi ar y noson ac i bawb sydd wedi noddi'r disgyblion.

Sefydliad y Merched

Yn ein cyfarfod nos Lun, 8fed

Ebrill, croesawodd ein Llywydd, Mrs Avril Jones, un o'n aelodau, sef Mrs Joyce Flexman, a ddangosodd ei gwaith les prydfeth. Esboniodd hanes y grefft o wneud les ffled a les bobin ac ati a chafwyd noson fendigedig yn ei chwmmi. Diolchwyd iddi gan Mrs Ceinwen Roach, gweiniwyd y te gan Mrs Glenys Jones a Mrs Ceinwen Roach ac enillwyd y raffl (rhoddedig gan Mrs Avril Jones) gan Mrs Glenys Jones. Y gystadleuaeth oedd ffotograff o'r Gwanwyn, ac fe'i henillwyd gan Mrs Mary Davies, gyda Mrs Alice Davies yn ail a Mrs Avril Jones yn drydydd. Diolchodd ein Llywydd i bawb am noson hyfryd. Ym mis Mai bydd ein gwibdaith flynyddol.


Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Ann Jones, 3 Bro Grannell ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 26ain o Fai. Mwynhewch y dathlu.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Dr Rhodri Bowen, Delyn Aur, Llanwnnen a Helena Moor o Stafford ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob lwc i'r dyfodol oddi wrth y teulu a ffrindiau i gyd.

Priodas



Priodwyd Geraint Bowen, Delyn Aur, Llanwnnen ac Elen Samuel, Pen-y-Bont ar Ogwr ar 14 Medi 2012 yng Nghapel y Tabernacl, Pen-y-Bont ar Ogwr Treuliodd y ddau eu mis mêl yn Tsieina ac maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Pentrebach

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Joy, Huw a'r teulu oll, Derwen Deg ar farwolaeth sydyn ei thad sef Iwan Davies o Gribyn.

Corsgoch

Profedigaeth

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Jean Evans a'r teulu oll, Llwyn y Gôg, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith ym Mrynllwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Clwb Clonc

Mai 2013

£25 rhif 492 :
Dewi Morgan,
77 Heol-y-Bont, Llambled
£20 rhif 202 :
Mrs Delor James,
Brynhyfryd, Blaenannerch.
£15 rhif 35 :
Hanna Llewelyn Davies,
Ger-y-nant, Drefach.
£10 rhif 3 :
Mrs Annie Bowen,
Fflat 2, 20 Stryd y Coleg, Llambled.
£10 rhif 209 :
Ieuan James,
Ael-y-Bryn, Heol Maestir,
Llambled.
£10 rhif 108 :
Lyn Davies,
Madryn, Stryd Fictoria, Aberaeron.

Mae antur yn aros amdanoch...

Dewch i ddarganfod traethau ysblennydd, teithiau cerdded hyfryd a rhaglen weithgareddau yn llawn cyffro. Neu ymwelwch ag un o'n hatyniadau gwych i'r teulu cyfan: teithiwch yn ôl mewn amser a darganfod eich rhyfelwr mewnol yng Nghastell Henllys, ymunwch â'r hwyl ganoloesol yng Nghastell Caeriw, neu manteisiwch ar gyfle i fod yn artist yn Oriel y Parc.

Cewch fwy o wybodaeth ar www.arfordirpenfro.org.uk.



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park**



Ymwelwch â'n stondin yn Eisteddfod yr Urdd i ddarganfod diwrnod allan gwych.

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Donald Quan, Blaencwm a'r teulu, ar farwolaeth ei chwaer, Celia Caughlan, a oedd yn byw yn Portsmouth ers blynyddoedd.

Clwb yr Henoed

Hoffem dynnu'ch sylw at glwb newydd sydd i'w gynnal bob pythefnos i henoed Llanfair a Chellan, yn cynnig cinio ysgafn yn rhad ac am ddim. Bydd yn cynnwys cawl, rôl a chacen gyda te neu goffi. Y bwriad yw ymgynnull er mwyn cymdeithasu gyda'r cyfle i chwarae cardiau, dominos neu gael y pleser o eistedd a siarad gyda ffrindiau hen a newydd. Bydd y clwb yn rhedeg bob yn ail bythefnos naill yn neuadd y pentref yn Llanfair neu Cellan ar ddydd Llun o 11.30 yb hyd 2.00 yp. Cysylltwch ag Amanda yng Nghellan ar 01570421338 neu Linda yn Llanfair ar 01570493706 i ddatgan eich diddordeb. Cynhelir y clwb ar y dyddiadau canlynol.

CELLAN	LLANFAIR
Ebrill 8	Ebrill 22
Mai 6	Mai 20
Mehefin 3	Mehefin 17
Gorffennaf 1	Gorffennaf 15
Awst 5	Awst 19
Medi 2	Medi 16
Hydref 7	Hydref 21
Tachwedd 4	Tachwedd 18
Tachwedd 30	Rhagfyr 9

Noson Gwis

Ar nos Sadwrn, Ebrill 20fed cynhaliwyd noson gwis rhwng timau Llanfair a Chellan. Daeth digon ynghyd i gynnal chwe tîm, y cwestiynau wedi eu paratoi gan Linda Quelch gyda help Paula Barker yn cadw'r sgôr. Ar ôl cystadlu brwd fe ddaeth tîm o Gellan a tîm o Lanfair i'r brig gyda tîm Llanfair- Sue a Brian Powell, Claire Parsons a Dave Denney yn ennill. Tîm Cellan oedd Amanda a John Newman, Kay a Shirley Platts gyda'r ddau dîm yn cael rosets addas. Ar ddiwedd y noson cafwyd lluniaeth ysgafn.

Clwb Hanes

Cynhaliodd Clwb Hanes Llanfair gyfarfod ar Ebrill 17eg i benderfynu beth fydd themâu ei ymchwil nesaf. Penderfynwyd ar y Rhyfel Byd Cyntaf gyda'r syniad o wneud arddangosfa i ddathlu dechreuad y Rhyfel Mawr, yn Awst 2014. Roedd diddordeb mawr yn y project hwn, gan y bydd yn edrych ar ddylanwadau y rhyfel ar bobol yr ardal, a gwneud casgliadau o luniau o phobol a digwyddiadau. Mae'n bosib y bydd llawer o grwpiau eraill dros Geredigion yn gwneud rhywbeth tebyg.

Clwb Cant

Tynnwyd clwb cant yn ystod y pwyllgor ar Ebrill 8fed a dyma'r enillwyr: Meinir Miller, Cysgod y Coed £20; Dolly, Ty Yfory £10; Liz Mercer, Gelli £10; Margaret Jones, £10; Bonny y Mochyn £5; Dan Griffiths, Pengarn £5; Billy Jones, £5; Wil Hockenhull, Tregaron £5; Al Heron, y Siop, £5; Sally Leech, Tanyresgair, £5.

Dathlu

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Ceris Quan, Swm yr Afon sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn deunaw oed ar Mai 31ain. Mwynha'r dathlu.

Sefydliad y Merched

Mae merched Llanfair wedi dod i'r brig unwaith eto trwy ennill cwpan Rali y Gwanwyn a gynhaliwyd yng Nghiliau Aeron ar Ebrill 20fed. Llongyfarchiadau cynnes i'r tîm - Iris Quan, Paula Barker, Elaine Coombes, Eleanor Evans a Yola Wilson. Da iawn wir.

Cyngerdd

Mae pentref Llanfair yn edrych ymlaen yn arw at ymweliad Côr Cwmann a'r Cylch i eglwys Santes Fair ar nos Sul, Mai 19eg am 6.30yh. Bydd y côr yn cyflwyno nifer o ganeuon poblogaidd ac ambell emyn traddodiadol. Yn cefnogi'r côr fydd yr artistiaid Kees Huysmans a Deiniol Williams. Llywydd y noson fydd John Metcalf, Ty Yfory, Llanfair. Byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth. Sylwch fod y cyngerdd yn cychwyn yn gynharach nag arfer.

Ffarmers

Neuadd Bro Fana

Cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog yn y Neuadd ar nos Sadwrn, yr 20fed o Ebrill yng nghwmni Côr Meibion De Cymru, o dan arweiniad Elaine Robins, gyda Juliet Rossiter yn cyfeilio. Croesawyd Ina Morgan, y soprano o Lanfynydd i ganu, a Georgina Cornock Evans, Harford i chwarae'r delyn, ac fel bonws, cafwyd eitem gan Carys Morgan, Llanfynydd – merch Ina. Roedd y gyngerdd o safon uchel, y Neuadd yn llawn, a'r gynulleidfa yn sicr wedi'i phlesio. Llywyddion y noson oedd Aelwyn ac Avril Evans, Caegwyn, y ddau yn weithgar o fewn y gymdogaeth, a braf oedd cael cyfle i'w croesawu ar y noson. Diolch yn fawr iddynt am eu presenoldeb, am araith ddifyr, ac am rodd hael i'r Neuadd.



Yn ystod y gyngerdd, estynnwyd croeso i Llinos Thomas o Uned Anghenion Arbennig Myrddin yng Nghaerfyrddin, a chyflwynwyd iddi siec o £340 at waith yr uned sydd yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant ac anghenion arbennig. Wrth ddiolch am y rhodd, cafwyd ganddi ychydig o gefndir yr uned, a'r gwasanaeth sydd yn cael ei gynni. Codwyd yr arian yma yn y Gyngerdd a Noson o Garolau a gynhaliwyd yn y Neuadd ar y Sul cyn y Nadolig.


Ar nos Wener 31ain o Fai, byddwn yn croesawu Cwmni Theatr Hijinx o Gaerdydd i'r Neuadd i berfformio 'The Adventures of Sancho Panza'. Ysgrifennwyd y ddrama gan Glenys Evans, a'r cyfarwyddwr yw James Williams. Bydd y perfformiad, sydd yn Saesneg, yn cychwyn am 7.30, a gellir archebu tocynnau oddi wrth Elfyn Davies ar 01558 650507 neu trwy e-bostio neuaddbrofana@ffarmers.org

Ar y 29ain o Fehefin, bydd Cerddorfa Siambr Llambled yn cynnal cyngerdd yn y Neuadd. Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur – ceir rhagor o fanylion yn agosach i'r digwyddiad.

Cellan

Parti Coronation

A ydych yn cofio'r rhain? Dyma lun o barti gwisg ffansi 'Coronation' yng Nghellan yn 1953. A ydych yn nabod rhai o'r rhain ac yn gallu llenwi'r bylchau?



Rhes gefn o'r chwith: John Raczka, ?, ?, ?. Rhes ganol: ?, ?, Emrys Davies, Teivina Jones, Sian Griffiths, Eleri Williams, Elizabeth Jones, ?. Rhes flaen: Andrew Williams, Tony Raczka, Bleddyn Williams, ?, ?, Juliet Davies.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys ag Ann a Bleddyn, Cnwcyfallen a'r teulu o golli chwaer a modryb yn ddiweddar o Aberystwyth, sef Ray (Rachel), yn enedigol o Fferm Capeli, Maestir. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Sinema

Y mis yma, mae tair ffilm yn cael eu harddangos yn y Ganolfan Mileniwm; croeso i bawb ddod i weld y canlynol: 'The Hobbit – An Unexpected Journey' (12) – 3ydd o Fai; 'Life of Pi' (12) – 10fed o Fai; 'Quartet' (12) – 30ain o Fai.

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulliad da i gyfarfod mis Ebrill gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, a braf oedd cael croesawu'r siaradwraig wadd yn ôl atom am y drydedd waith, sef Margaret Bide, Glanffrwd, Cellan. Testun ei darlith oedd 'Cymharu'r diwydiant gwlân yn Romania heddiw, â Chymru ddoe'.

Mae gan Margaret Bide drigain mlynedd o brofiad ym maes tecstilau, ac wedi dod ar draws dillad a brethyn o wlad Romania pan oedd yn ugain oed, penderfynodd ei bod am ymweld â'r lle hwnnw. Daeth y cyfle yn 2005, ac wedi gwneud tipyn o baratoi ynglŷn â'r llefydd i'w gweld, cychwynnodd hi a'i ffrind ar y siwrne hir. Erbyn cyrraedd Romania, teimlent eu bont wedi teithio yn ôl canrif mewn amser. Ceffylau a cherti oedd dulliau teithio'r ardal, er bod gan rai o'r certi olwynion rwber!

Trwy gyfres o luniau gwelwyd y diwydiant gwlân yn Romania heddiw fel yr oedd yma yng Nghymru cyn y chwyldro diwylliannol - diwydiant cartref; y gwragedd yn nyddu'r gwlân wrth fynd o gwmpas dyletswyddau'r dydd; yr edafedd yn cael ei droi'n frethyn ar y ffrâm wŷdd yn y cartref; hwnnw wedyn yn cael ei daflu mewn i drobwl a grëwyd i bannu'r brethyn; sychu'r brethyn dros ambell i lwyn cyn ei greu'n ddillad a blancedi hyfryd.

Yn ogystal, gwelwyd ychydig o fywyd y trigolion - dwy neu dair buwch gan bob tyddyn, a'r rheini i gyd yn cael eu troi allan gyda'i gilydd i bori wedi'u godro am bump y bore; pobol yn gwerthu eu llysiau yn y farchnad, a'r cwsmeriaid yn cario rhywbeth yn debyg i ddwy sach o frethyn dros eu hysgwyddau. Dillad â brodwaith hyfryd yn ddillad bob dydd, a'u sgidiau o groen mochyn yn debyg iawn i sgidiau canoloesol.

Roedd Margaret Bide wedi dod ag esiamplau o wllân, offer nyddu, blancedi, y sachau brethyn a dillad ganddi, ac roedd yna groeso i'w gwrandawyr i fyseddu'r rhain i gyd.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan y Cadeirydd am noson tu hwnt o ddifyr.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mai 21ain, yn yr Hen Neuadd. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar ddechrau'r noson, ac yna croesewir aelodau i ddod â'u lluniau, papurau a.y.b. sy'n ymwneud â'r ddau brosiect sydd ar waith ar hyn o bryd, sef casglu deunydd yn ymwneud â'r Rhyfel Mawr, ac unrhyw beth sy'n gysylltiedig â hanes Sioe Llambled dros y ganrif a chwarter diwethaf.

Siop siarad dysgwyr Llanbedr

Cynhaliwyd sesiwn sgwrsio er mwyn i ddysgwyr a Chymry Cymraeg ddod at ei gilydd ar

drydydd dydd Llun y mis ym mis Mawrth ac Ebrill o 2-3pm yn yr Hedyn Mwstard. Daeth nifer dda ynghyd i fwynhau paned a sgwrs a diolch i rai o aelodau Noddfa a Merched y Wawr am eu cwmni. Trefnir y sesiwn gan Ann Morgan dan nawdd Cymraeg i Oedolion, Canolfan Canolbarth Cymru.

Ym mis Mai bydd y siop siarad ar yr 20fed, 2-3pm. Mae'r dysgwyr wrth eu bodd yn cael cyfle i sgwrsio. Os oes gennych ddi-ddordeb byddwn yn falch o'ch gweld. Cysylltwch ag Ann ar 422413 am fwy o wybodaeth. Gobeithiwn gael sesiwn fach o goginio (a bwyta) yn y cyfnod.

Diolch i'r Hedyn Mwstard hefyd am roi ystafell i ni yn rhad ac am ddim.

Diolch

Dymuna Dan ac Irene Jones, Penarth, Heol y Bryn ddiolch i ffrindiau a theulu am eu cyfraniad i Ambiwylans Awyr Cymru, ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt. Cyflwynwyd sic o £600 i Ros Jones.

Merched y Wawr

Ar nos Lun, Ebrill 11eg teithiodd yr aelodau i Amgueddfa Wlân Cymru yn Drefach Felindre lle roedd croeso mawr yn eu haros. Fe'n tywyswyd gan Keith Rees a chafwyd hanes trylwyr ganddo am y ffordd yr oeddynt yn golchi a sychu'r gwlân, ac roedd un o'r crefftwyr wrth law i egluro a gweithio y peiriannau a'r offer traddodiadol er mwyn cribo a nyddu'r gwlân i bellenni i wneud carthenni a sioliau. Roedd yn werth ymweld â'r oriel uwchben er mwyn gweld y carthenni, bagiau, dillad a llawer mwy o'r gwaith cywrair oedd yn barod i'w werthu. Roeddem wedi dysgu llawer ac roedd yn ddiddorol i weld sut oedd y gwaith yn cael ei wneud o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r Amgueddfa hefyd yn gartref parhaol i felin fasnachol Melin Teifi, lle roeddent yn gwneud gwlânenni flynyddoedd yn ôl. I ddiweddu'r noson cafwyd pryd blasus wedi'i baratoi gan Catherine a'r staff.

Diolchodd Noleen i Keith, Catherine a'r staff am noson ddiddorol, addysgiadol a'r naws cartrefol a'r wledd odidog.

Trafodwyd ychydig o fusnes - cydymdeimlwyd â Mair a Caradog ar farwolaeth eu brawd, a chroesawyd Brenda nôl ar ôl ei llawdriniaeth. Enillwyd y raffl gan Gwen Jones.

Atgoffwyd yr aelodau am yr Wyl Fai yn Neuadd Felinfach ar Fai 11eg.

Cofiwch am y cyfarfod Blynyddol ar Fai 13eg yn Festri Shiloh.

Ambiwylans Awyr Cymru

Trefnir Taith Feicio ar Fai 6ed i godi arian at Ambiwylans Awyr Cymru i ddechrau o Glwb Rygbi Llambled am 10 o'r gloch y bore.



Llongyfarchiadau i dîm rygbi dan 12 Llambled a'u hyfforddwyr ar gyrraedd rownd derfynol yng nghystadleuaeth Cwpan Sir Gaerfyrddin a derbyn medalau arian am orffen yn yr ail safle. Da iawn chi bois!



Yn y llun gwelir Rob a Delyth Phillips gyda Gweinidog Noddfa, y Parch Jill Tomos, cyn yr oedfa fedydd.

Bydd tair o deithiau i gyd sef un hir, un ganolig ac un ar gyfer ieuenctid. Mae'r tâl cofrestru i'r rhai sydd heb noddwyr yn £5 ar y diwrnod. Ni fydd tâl cofrestru i'r beicwyr sy'n barod i gasglu nawdd. Mae ffurflenni ar gael oddi wrth Sion Slater (01570 493139) neu Ros Jones (422613). Bydd cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan ac yn cynorthwyo yn ystod y dydd fwynhau barbeciw yn dilyn y daith. Croeso cynnes i bawb o bob oedran ddod ynghyd i gefnogi achos teilwng Ambiwylans Awyr Cymru. Gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi cael profedigaeth yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Caradog a'r teulu 1 Maesyfelin ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt wedi colli eu brawd Gwynfor ym mis Ebrill.

Aelwyd yr Urdd

Daeth tymor yr Aelwyd i ben ar 26 Mawrth mewn noson hwyl y Pasg wedi ei threfnu gan Geinor Medi. I ddechrau cymerwyd rhan mewn helfa wyau siocled a bu yna gryn chwilio cyn dod o hyd iddynt ac yna cafwyd y pleser o'u bwyta. I gloi'r

noson ymunodd pawb mewn gêmâu a chystadlaethau amrywiol llawn sbri gan ddefnyddio wyau go iawn - rhai wedi eu berwi!!

Diolchodd Manon i Geinor Medi am baratoi mor helaeth ar ein cyfer ac i Janet am ei chymorth hithau hefyd. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu bodd.

Yr ydym yn edrych ymlaen at ein hymweliad â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro. Bydd Gwawr yn cystadlu ar yr unawd a'r unawd Cerdd Dant ddydd Gwener a'r parti Cerdd Dant yn cystadlu ar y dydd Sadwrn. Disgwylir i bawb godi'n gynnar iawn gan fod y rhagbrofion am 7.45 y bore!

Pob lwc i bawb.

Cymanfa'r Bedyddwyr

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled ym Methel Silian ar Sul 19 Mai. Bydd oedfa'r plant yn y prynhawn am 2.30 a'r oedolion am 5.30 yr hwyr. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gwmni ein arweinydd gwadd sef Mr. Twynog Davies. Darperir lluniaeth rhwng yr oedfaon. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Noddfa

Ar fore Sul y Pasg roedd hi'n fendith i ni fel eglwysi Bedyddwyr y Cylch gael rhannu mewn oedfa fedydd yn Noddfa a dathlu atgyfodiad yr Arglwydd

Llanbedr Pont Steffan



Gwynfor Lewis Cadeirydd Siambr Fasnach Llanbed a'r aelodau yn cyflwyno sic o £1,707 i Philippa Davies, Parkinsons UK, sef arian a godwyd yn y Ddawns Flynyddol yn y Coleg. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.



Clwb Cerddoriaeth Llambled yn dathlu pen-blwydd yn 30 oed. Swyddogion: Penny Newton, Ysgrifennydd; Carol Cook, Trysorydd; Holly Cook, Trefnydd y Rhaglen, a Kistiah Ramaya, Cyn-Gadeirydd, yn ogystal ag aelodau'r pwyllgor mewn cinio a gynhaliwyd ar aelwyd Dr George a Mrs Maureen Lilley. Nid oedd y Cadeirydd, Dr Stephen Rowlands, yn gallu bod yn bresennol.

Iesu mewn ffordd arbennig iawn. Llwenydd mawr oedd tystio i fedydd Rob Phillips a'i briod Delyth. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan ein Gweinidog, y Parch Jill Tomos, ac ychwanegodd mai braint a phleser oedd cael cwmni teuluoedd a ffrindiau'r ddau. Darllenwyd o'r Gair gan Sian Jones a chyhoeddwyd yr emynau gan Myfanwy Bryce, Tudor Davies, Alwena Evans ac Alwyn Roberts. Cyflwynwyd neges bwrpasol a gafaengar gan ein Gweinidog a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Ann Morgan.

Profiad gwfreiddiol oedd gwrando ar Rob a Delyth yn tystio am eu ffydd a'u profiadau o'r pulpod cyn mynd trwy ddŵr y bedydd. Roedd yr achlysur allweddol bwysig hwn yn un ysbrydoledig a theimladwy.

Talodd ein Gweinidog ddiolch diffuant i Derek am baratoi'r fedyddfa ac i Alun, Alwyn a Roy am ei gynorthwyo, i'r aelodau oedd wedi cymryd rhan yn yr oedfa, i Ann a Janet am eu cymorth hwythau gyda'r trefniadau ac i bawb oedd wedi dod ynghyd i ymuno gyda ni i ddathlu Sul y Pasg mewn oedfa gofiadwy.

Yr ydym yn ymhyfydu ein bod wedi derbyn dau aelod newydd ifanc

brwdfrydig ac edrychwn ymlaen at blethu eu doniau yn llawn i fywyd a gwaith Noddfa yn yr ardal a'r Cylch. Cyn troi tuag adre cafwyd cyfle i fwynhau paned a sgwrs.

Gorsgoch

Profedigaeth

Daeth tristwch unwaith yn rhagor i Mrs Dilwen George a'r teulu, Awelfryn, yn ei phrofedigaeth ddiweddar. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf â chwi i gyd.

Cinio Dathlu Pen-blwydd Cangen Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch

yn ddeugain oed yng Ngwesty Ty Glyn Aeron ar Fehefin 10fed 2013 am 7:30y.h.

Croeso cynnes i gyn-aelodau.

Enw a blaendal o £10

erbyn Mai 10fed i

Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen, Cwmann, 01570 422922.

Cwmsychpant

Cynnyrch y Cwm

Ar ddydd Llun y Pasg daeth tyrfa luosog i Gapel y Cwm i brynhawn o arddangosfa Cynnyrch y Cwm.



Diwrnod oedd hwn i ddangos gwaith llaw aelodau'r Capel a chafwyd amrywiaeth o wahanol bethau, yn cynnwys cwiltiau prydfether, gwaith gwau, gwaith coed, llyfrau a llwyddiant buches odro lleol.

Roedd stondin gacennau bendigedig yno ac fe gafodd pawb welsh cake ffres a thwym gyda phaned cyn troi am adref. Cafwyd raffl ar thema'r Pasg ac diolchodd y Parch Wyn Thomas i'r gynulleidfa luosog am gefnogi menter newydd i bawb yn y Cwm. Casglwyd swm anrhydeddus iawn i'r Capel gan bod gwaith adnewyddu i'w wneud ar furiau'r Capel yn ystod y misoedd nesaf.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Haydn Evans, Brynllwyd, a fu farw ar ddechrau mis Ebrill.

Darlith a Gwerthu llun

Yn ystod mis Ebrill cynhaliwyd noson gan Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yng Nghapel y Cwm pryd cafwyd darlith gan Dr Huw Owen o Aberystwyth am gapeli Cymru, yn cynnwys capeli'r Smotyn Du. Yn ystod y noson hefyd, gwerthwyd y llun gwreiddiol, sef llun o holl capeli'r Smotyn Du o waith Rhiannon Roberts, Ciliau Aeron a gomisiynwyd gan y Gymdeithas gyda'r arwerthwr Y Parch Cen Llwyd, ac fe'i gwerthwyd i brynwyr lleol. Cafwyd paned a chacen cyn troi am adre a diolchwyd i bawb am eu presenoldeb gan y Parch Wyn Thomas ac Elaine Davies, Llywydd y Gymdeithas.

Cymanfa Bwnc

Eleni tro Capel y Groes, Llanwnnen oedd cynnal y Gymanfa Bwnc. Roedd cynulleidfa dda yno yn gwrando ar Parchedig Cen Llwyd yn siarad. Cafodd ei gynorthwyo hefyd gan y Parchedig Wyn Thomas. Lois Jones, Blaenhirbant Uchaf fu'n darllen emyn ar ran Capel y Cwm.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i holl blant yr ardal sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn gwahanol eisteddfodau ar hyd a lled y wlad yn ddiweddar. Daliwch ati blant – rydym yn ymfalchïo yn eich llwyddiant.

Llwyddiant gyda'r C Ffi

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan ac yn llwyddiannus yn enw'r CFFI yn ddiweddar yn Siarad Cyhoeddus ar lefel Cymru – da iawn chi.

Gwersi Gitar: Theatr Felinfach
Stafell Gynadledda
Nos Fercher 16.30-21.00

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Do, mi ddaeth hi eto.

Doeddwn i ddim wedi disgwyl y byddai hi yno. Ro'n i wedi dychmygu mai sefyllian o gwmpas y byddwn i, a hithau ddim yn dod.

Ond, yn ysgafn i ddechrau, ac wedyn yn gry', mi glywais i ei sŵn ac, unwaith yr oedd y glust wedi cynefino'n iawn, doedd dim amau hwnnw.

Roedd hi ychydig yn hwyrach na'r llynedd, ond mi ddaeth y gog unwaith eto i'r ucheldir uwch Gallt y Mynydd.

Doedd yna'r un ddeilen i'w chuddio hi, dim ond nodwyddau'r coed pinwydd, ac mae'n rhyfeddod ei bod wedi adnabod y lle efo'r caeau'n felynllyd, nid gwyrdd. Ond mi ddaeth.

Dw i'n siŵr bod dwy ohonyn nhw yno. Yn sicr, roedd yna ddwy gân wahanol ... un yn bur a chadarn y llall fymryn yn gryg a snwfflyd, fel petai'r aderyn wedi cael annwyd yn yr oerfel.

'Hi' medden ni am y gog er mai'r ceiliog sy'n canu, medden nhw. Os felly, a chymryd eu bod nhw eisoes yn paru, roedd yna bedwar aderyn yn rhywle ar Fynydd Pencarreg.

Tua'r un pryd y daeth y gwenoliaid hefyd, i wibio'n isel tros y caeau yng nghefn y tŷ a sgimio i mewn tan y bondo. Yn wahanol i'r llynedd, gobeithio y caiff eu nyth nhw lonydd.

Un o ryfeddodau mawr y byd ydi taith y cogau a'r gwenoliaid yn ôl i'r un ardal bob blwyddyn. Efallai nad ydi Llanybydder – bob parch – yn cymharu efo'r Riviera neu'r Costa del Sol, ond dyma hoff le'r cogau i dreulio ychydig o'r haf.

Eleni, am y tro cynta', mae mudiad adar, yr Ymddiriedolaeth Ornitholegol, yn defnyddio tagiau radio i ddilyn nifer o gogau o Gymru, yn benna' o Geredigion.

Os ydw i wedi deall yr wybodaeth yn iawn, does yna fawr o sôn am rai o'r ieir ond, erbyn diwedd wythnos lawn ola' mis Ebrill, roedd dau geiliog ar eu ffordd, y ddau wedi'u tagio yn ardal Tregaron y llynedd.

Roedd Dafydd (David iddyn nhw) wedi bod yng nghanol Sbaen ers rhai dyddiau ar ei ffordd o ganoldir Affrica a Llwyd (Lloyd) hanner y ffordd anodd ar draws anialwch y Sahara.

Mae'n rhaid fod cogau Gallt y Mynydd wedi gwneud yr un daith yn union, yn herio'r gwres llethol a'r stormydd tywod i hedfan cannoedd o filltiroedd bob dydd ... er mwyn brêc bach yn Llanybydder.

Mae'r ffaith eu bod nhw'n dod bob blwyddyn yn dangos bod eu hadar gwely a brecwast yn dal i ffynnu hefyd yn yr ardal – un o lond llaw o fathau o adar bach sy'n cael eu defnyddio gan y cogau i fagu eu cywion.

Mae honno'n stori ryfeddol hefyd ... sut y mae cyw cog wedi addasu i allu gwrthio wyau'r aderyn llai o'r nyth a sut y mae wedi datblygu galwad sy'n gwneud i'r llysfam ddiniwed feddwl fod yno dri neu bedwar o'i chywion naturiol hi.

Mae'r adar llai hefyd yn addasu i wrthsefyll y bygythiad ... y ddwy rywogaeth fel ei gilydd, ac fel ni, yn rhan o'r frwydr fawr i fyw.

Oherwydd ei harferion anghymdeithasol, mi ddylen ni fod yn drwglicio'r gog ond, i'r gwrthwyneb, dyma'r aderyn o bob un sy'n cael mwya' o groeso bob blwyddyn a llythyrau yn y papurau a thrydar ar y We yn sôn am ei gweld hi gynta'.

Mae yna reswm pam fod yr Ymddiriedolaeth yn dilyn cogau Cymru. Roedd eu niferoedd nhw wedi cwmpo 27% yn y deng mlynedd rhwng 1999 a 2009 ac, os gwrandewch chi ar atgofion hiraethus pobol sydd heb eu clywed nhw ers blynnyddoedd, mae'r dirywiad yn llawer mwy.

Trwy eu tagio, y gobaith ydi deall sut yn union y maen nhw'n symud yn ôl ac ymlaen ar draws y cyfandiroedd ac, os byddan nhw'n mynd i drybini, lle y mae hynny'n digwydd.

Eleni, o leia', nid ar Fynydd Pencarreg y mae hynny.

Gwahoddir chi i Gyfarfod Blynnyddol Papur Bro

CLONC

Yn Llain y Castell, Heol y Bryn, Llanbedr Pont Steffan

Nos Fawrth 21ain Mai am 7 o'r gloch.

Cysylltwch ag un o'r swyddogion fel y gellir archebu lluniaeth ysgafn.



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partion



Bwyta'n dda i gael y cydbwysedd cywir.

Ar ôl bod yn gwneud ychydig o waith ymchwil a chynnal arddangosfeydd Bwyta'n Iach yn ddiweddar, mae hyn wedi fy ysbrydoli i rannu'r wybodaeth gyda chi, criw Cegin Clonc. Felly ceisiwch fwyta:

Digon o ffrwythau a llysiau

Digon o fwydydd llawn 'starch'

Rhywfaint o gig, pysgod a ffa

Ychydig o gynnyrch llaeth

Bach o fwydydd uchel mewn braster

Cydbwysedd yw'r allwedd i fwyta'n iach!

Mwynhewch fis Mai,

Gareth

Crymbl cig oen Cymreig

Rydym i gyd yn mwynhau crymbl melys - wel beth am un sawrus.

Cynhwysion

450g o friwgig cig oen Cymru

1 cenhinen wedi'i thorri'n fân

2 foronen wedi pilio a'u torri'n fân

1 corbwmpen (Courgette) wedi'i thorri'n fân

2 lond llwy fwrdd o flawd plaen

½ peint o stoc

1 llond llwy fwrdd o puree tomato

ychydig o berlysiau sych



Crymbl

150g o flawd plaen

75g o fenyn

50g o geirch

50g o gaws wedi gratio

Dull

1. Trowch y ffwrn i 190°C, 375°F, Nwy 4

2. Rhowch y briwgig mewn sosban a ffriwch yn sych am 5-6 munud

3. Ychwanegwch y winwns, moron a'r corbwmpen, a ffriwch.

4. Ychwanegwch y blawd a'i gymysgu'n dda. Yn araf ychwanegwch y stoc, y puree, perlysiau a halen a phupur. Dewch a'r cyfan i'r berw a'i ferwi nes bod y cyfan yn drwchus. Rhowch mewn dysgl addas i'w roi yn y ffwrn.

5. Gwnewch y crymbl drwy roi'r blawd mewn powlen ac ychwanegwch y menyn a'i rwbio nes bod y cyfan yn friwsion. I mewn â'r caws a'r ceirch, cymysgwch a'i roi dros y briwgig.

6. Coginiwch am 25 munud a gweinwch gyda llysiau ffres.

Cwpanau Cig Eidion Cymreig.

Cynhwysion

225g o gig eidion wedi'i dorri'n dafelli, ychydig olew

1 wyllys (aubergine), wedi'i dorri'n ddarnau

1 winwnsyn coch wedi'i dorri'n denau

3 madarch wedi'u tafellu

1 llond llwy fwrdd o bast cyrri

1 llond llwy fwrdd o siytni mango

1 tomato wedi'i tafellu

4 tortila blawd

5 dail coriander



Dull

1. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio ac ychwanegwch y stribedi cig, yr aubergine a'r madarch, ffriwch am 12 munud.

2. Ychwanegwch y past cyrri, y siytni mango, trowch a choginiwch am 2 funud.

3. Ychwanegwch y coriander a'r tomato.

4. Rhowch y gymysgedd ynghanol y tortilas. Roliwch a mwynhewch.

Rhifyn mis Mehefin

Yn y Siopau

6ed Mehefin

Erthyglau, Newyddion

a Lluniau i law erbyn

27ain Mai

Llanybydder

Diolch

Dymuna Mrs Dora Jones, Gwynfa ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar adeg ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Côr Lleisiau'r Werin

Ar ôl pythefnos o wyliau, daeth y côr nol at ei gilydd yn Festri Aberduar ar nos Iau, 11eg Ebrill. Hyfryd oedd croesawu'n ôl Mair a Nans, rydyn ni wedi weld eisiau'r ddwy ohonoch! Croeso nôl i Margaret Crug y Wheel, yn dilyn ei gwyliau i Bolivia. Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r antur.

Rhaid oedd llongyfarch Côr y Wiber, Castell Newydd Emlyn, ar ôl iddynt ennill cystadleuaeth Côr Cymru yn Aberystwyth. Mae merch Mair Wilson yn aelod o'r côr, hefyd mae dwy nith i Nans a Mair Potter yn aelodau, ac mae merch yng nghyfraith i Nans yn aelod! Llongyfarchiadau calonnog i Gôr y Wiber am wneud mor dda.

Derbyniodd y côr lythyr o ddiolch oddi wrth ysbyty Llandochoau, gan iddynt derbyn siec o £750 yn dilyn ein cyngerdd Nadolig. Yn y llythyr cawsom wybod fod yr arian a godwyd yn mynd i fod yn help i'r uned sy'n cynorthwyo'r rhai sy'n dioddef o Gancr y Fron.

Llongyfarchiadau i Sioned Glantrenfach ar ennill yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFFI Cymru. Fel côr rydyn ni'n browd iawn ohono ti am ennill yng nghystadleuaeth mor safonol.

Maer côr yn brysur nawr yn dysgu caneuon newydd ar gyfer Noson Goffi i godi arian i henoed Llanybydder. Caneuon fel 'Entertainer' a medli o ganeuon traddodiadol.

Edrychwn ymlaen ichi gael clywed y caneuon newydd yn y Noson Goffi!

Eglwys Sant Pedr

Roedd Gwasanaeth y Gair mis Ebrill yng ngofal Jean a Susan. Y thema oedd 'Gall golwg fod yn dwyllodrus'. Dangosodd Jean luniau o bobl sy'n ymddangos yn hollol gyffredin, ond sy'n bobl tu hwnt o bwysig.

Llun 1: Llun o Nelson Mandela, a ymladdodd yn erbyn apartheid yn Ne Affrica. Am ei safiad, gorfodwyd iddo dreulio 27 o flynyddoedd mewn carchar. Bedair blynedd ar ôl iddo gael ei ryddhau cafodd ei ethol yn Arlywydd De Affrica, a gweithiodd yn ddiflino i ddod â chymod a heddwch i'r wlad.

Llun 2: Llun o Sant Isidore o Seville. Yn ystod ei fywyd ceisiodd ddod ag addysg i'r bobl. Ef yn awr yw nawddsant y Rhyngwlad!

Llun 3: Santes Apollonia, nawddsant y ddannodd! Y traddodiad amdani yw bod ei dannedd wedi cael eu torri i gyd cyn iddi gael ei llosgi'n fyw am wrthod gwadu ei ffydd fel Cristion.

Llun 4: Llun y Fam Teresa, a dreuliodd ei bywyd yn helpu'r cleifion a'r digartref, yn benodol yn India. Pan fu hi farw yn 1997 roedd yr elusen yn ei henw wedi sefydlu 610 cenhadaeth mewn 123 o wledydd.

Llun 5: Llun o Alexander Fleming, a ddarganfu'r gwrthfotig, penisilin, a thrwy hynny arbed bywydau miliynau o bobl.

Llun 6: Llun o Irena Sendler, a lwyddodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd i smyglo oddeutu 2,500 o blant Iddewig allan o Geto Warsaw, a thrwy wneud hynny, arbed eu bywyd.

Hefyd yn cymryd rhan oedd Lewis Williams yn darllen y ddameg am y Cardodyn Dall a Bethan Williams yn darllen y am y Pharisead a'r Casglwr Trethi. Darllenodd Eirian Jacobs gerdd am y Samariad Trugarog. Darllenodd Susan stori am Sacheus a chanodd y Ficer gân amdano. Gwnaeth y Ficer gloi'r gwasanaeth drwy ein harwain mewn gweddi. Diolch o galon i Susan a Jean am yr holl waith yn paratoi'r gwasanaeth, ac i bawb am gymryd rhan.

Trist iawn oedd clywed fod y Parchedig Bill Fillery, ein hen Ficer, wedi colli'i chwaer yn ddiweddar. Rydym yn danfon ein cydymdeimlad â chi, Liz a'r teulu i gyd.

Rydym yn cynnal noson Bingo yn y Clwb Rygbi, Llanybydder, ar nos Fawrth 21 Mai am 8 o'r gloch. Dewch i gefnogi'r Eglwys!

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan?

Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.

Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Noson yng nghwmni Clive Edwards, Cwmeils

yn y Llew Du, Llanybydder
Nos Wener 7fed Mehefin 2013
am 7.30 yh

Llywydd: Teifi Humphreys Jones
Ty Cardi, Caerdydd
Tocyn £10.00 yn cynnwys gwydriad o win.

Tocynnau ar gael gan:-
Jennie 01570 422625, Ann 01570 423692,
Ieuan 07817 617957, Jean 01570 480 661 a
Sara 01570 480289

Trefnir gan Bwyllgor Apêl Llanybydder a
Chwmann tuag at
Eisteddfod Genedlaethol Sir Gar 2014

Cymorth Cristnogol ar Waith

Cyflwynwyd swm o £1,960, sef hanner y gronfa er cof am Mrs Hazel Davies Frondolau Pentrebach i greu ffynhonnau er mwyn cael dŵr glân mewn ardal dlawd yn Kenya.



Gwelir yn y llun un cyflenwad yn cael ei gwblhau. Mae'r erthygl isod gan Manon Defis a fu allan yn Kenya yn gweld y gwaith yn cael ei wneud yn ddisgrifiad byw o werth dŵr glân yng nghymunedau tlawd y trydydd byd.

Cronfa Dywod Kenya

Mae dŵr yn rhywbeth sylfaenol, ond rhywbeth angenrheidiol sy'n gallu cael cymaint o effaith ar fywyd pobl. Mae cymaint o broblemau yn tarddu o brinder dŵr, yn arbennig dŵr glân; dinistrio bywoliaeth, iechyd yn dirywio a hyd yn oed bywydau plant a'r bregus yn cael eu colli. Mae cael cyflenwad o ddŵr glân yn newid bywydau a hyd yn oed yn achub bywydau. Yn ddiweddar cefais gyfle arbennig i deithio i Ddwyrain Affrica. Yn ogystal â theithio o amgylch Tanzania, gweithio mewn ysgol gynradd a chynorthwyo gydag ymgyrchoedd malaria a HIV/Aids, ymwelais â nifer o brosiectau Cymorth Cristnogol yn Ne Kenya. Y peth cyntaf sy'n eich taro am ardal Kenya wledig yw'r sychder, roedd yr ardal benodol ymwelais â hi, pentref dafliaid carreg o Machakos, wedi profi sychder am dros 20 mlynedd. Tystiolaeth weledol oedd hyn o effaith newid hinsawdd yn digwydd ... o flaen ein llygaid.

Fel rhan o brosiectau Cymorth Cristnogol, yn Kenya, un ymgyrch bwysig yw'r cynllun adeiladu cronfeydd a ffynhonnau tywod. Mae'r cronfeydd yn casglu dŵr glaw ond hefyd yn llanw o dywod. Yn lle bo'r dŵr yn anweddu i'r aer oherwydd y gwres uchel, mae'r tywod yn amsugno'r dŵr a'i gadw yn y gronfa. Mae pwmp yn cael ei osod yn y gronfa i bwmpio'r dŵr allan yn ôl yr angen. Defnyddir y dŵr ar gyfer yfed, golchi ac ar gyfer anifeiliaid. Hefyd, bydd dyfrhau cynydau yn rhan annatod o sicrhau cynhaliaeth a bywoliaeth. Roedd y prosiectau fel y gronfa dywod yn dysgu trigolion yr ardaloedd gwahanol am sut i fyw yn hunangynhaliol ac yn eu hannog i newid technegau eu bywoliaeth er mwyn gallu goroesi'r sychder. Mae'r prosiectau hyn nid yn unig yn datrys problemau dwys ond hefyd yn gyfle i gymunedau cyfan ddod at ei gilydd i weithio drostynt eu hunain. Roeddwn yn lwcus iawn i weld un o'r cronfeydd tywod yma yn cael eu hadeiladu a'r modd yr oedd y gwragedd yn arbennig yn gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant y prosiect.

Dwyddodd Nicholas o Swyddfa Cymorth Cristnogol yn Nairobi, y gall un gronfa dywod ddarparu dŵr ar gyfer 600 o deuluoedd. Dŵr na fyddai'n bodoli o gwbl heb y gronfa hon. Datganodd fod y gronfa yn fater o fywyd neu farwolaeth. Roedd gweld y gymuned gyfan yn torchi llewys ac yn gweithio'n galed i adeiladu'r gronfa yn dangos yn glir cymaint roedd y gronfa yn golygu iddynt. Pan gyrhaeddodd, roedd pob un am ein coffeiddio, yn gwenu ac yn dawnsio ac yn diolch am gyfraniadau Cymorth Cristnogol. Defnyddiai'r gymuned ddeunyddiau a roddwyd iddynt trwy brosiectau Cymorth Cristnogol, ond roeddent yn dod at ei gilydd i adeiladu'r gronfa eu hunain.

Yn hwyrach yn yr wythnos, cefais gyfle i ymweld â chronfa dywod wedi'i chwblhau, y gyntaf yn yr ardal, a chof clir sydd gennyf oedd gweld plant ysgol yn dod i gasglu dŵr gan ddefnyddio eu poteli plastig mawr. Roedd pob un yn chwerrthin ac yn gwenu. Wrth adael yr ardal roeddwn yn meddwl am y gwaith codi arian roeddwn yn gwybod oedd wedi digwydd yn ôl yng Nghymru ar gyfer y cronfeydd tywod. Gwelais gyda'm llygaid fy hun sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio mewn gwledydd fel Kenya, a sut mae hyn yn gallu newid bywydau. Gall pobl Llanbed a ffrindiau a theulu Hazel Davies yn arbennig ymfalchïo yn y cyfraniadau a ddaeth i Cymorth Cristnogol er cof am Hazel er mwyn adeiladu'r ffynhonnau yma yn Kenya. Yr oedd Hazel ei hunan wrth gwrs yn un a roddodd gymaint o ymdrech i godi arian at wahanol achosion ond yn arbennig i annog pobl Llanbed i gefnogi prosiectau Cymorth Cristnogol.

Manon Defis, Caerfyrddin

Llangybi a Betws

Diolch

Dymuna Dilwyn ac Eileen a'r teulu, Bro Felin, ddiolch i bawb a gyfrannodd at Eglwys Gartheli trwy law Dewi Jenkins, Rhewindwr, Maestir er cof am ei hewythr Mr David Lewis Jones, Alltymynydd. Hefyd, diolch i'r Parchedig Elwyn Jenkins ac aelodau Capel Maesyffynnon am wneud gwasanaeth a te iddo pan oedd yn 100 oed fis Tachwedd diwethaf. Diolch yn fawr iawn.

Hoffai Rhodri Pugh-Davies ddiolch i bawb am yr arian, anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Dymuna Clare Hughes, Argoed, Pontrhydfendigaid a'r teulu ddiolch i bawb a oedd yn adnabod tad Mervyn Lewis, Tŷ Gwyn am y blodau a'r cardiau a dderbyniwyd, am y geiriau caredig ac am yr atgofion mae wedi eu gadael ar ôl. Diolch yn fawr i bobl Llangybi a Betws Bledrws sydd wedi bod mor gefnogol i'r teulu yn gofalu am yr anifeiliaid ac am y tir yn ôl y galw. Mae'r cyfraniadau er cof am Mervyn yn £610 a bydd y swm yma'n cael ei drosglwyddo i gronfa Ambiwlans Awyr Cymru.

Hamdden

Trefnwyd gwibdaith ddirlgel ar gyfer Ebrill 5ed gan y trysorydd ond oherwydd afiechyd nid oedd yn bresennol. Roedd yn brynhawn hyfryd o Ebrill ond yn oer. Roedd yna groeso cynnes yn ein disgwyl yng Nghwm Aur yn Llanybydder – cartref preswyl i'r henoed a llawer o gyfleusterau ychwanegol.

Gwerthfawrogydd manteision y lle a'i adnoddau gan lawer o'r gangen – i'w profi yn y dyfodol efallai ond nid ar hyn o bryd! Ar ôl cael taith o amgylch yr adeilad cafwyd te prynhawn bendigedig wedi'i baratoi gan weithwyr y gegin. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gan Dilys Godfrey i gydnabod croeso a gwasanaeth staff Cwm Aur, trefnwyd y trip ac i'r gyrrwr am fynd â phawb adref yn ddiogel, er efallai cawn ddychwelyd yma yn y dyfodol.

Enillwyd y raffl gan Lynne Barry; Caradog Jones; Nellie Williams; Dilys Godfrey a Joyce Rowcliffe. Bydd y wibdaith flynyddol yn ymweld â'r Mwbswls ar Fehefin 7fed. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi am 2.00y.p. pryd y disgwylir Mr Daniel Boyle i arddangos ei grochenwaith.

Cyngor Bro

Medrir gweld cyfrifon y cyngor rhwng Ebrill 29ain a Mai 28ain yn Maesyffynnon trwy wneud apwyntiad â'r clerc rhwng 10 a 5 ar ddyddiau gwaith.

Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen ar Ebrill 17eg pryd y croesawyd pawb gan y Llwydd, Gwyneth Jones. Y wraig



Y Sioe Ailgylchu



Rhai o blant Blwyddyn 5 a 6 yn eu gwisgoedd Tuduraidd.

wadd oedd Mererid Jones un o weithwyr Cyngor Sir Ceredigion a chawsom noson ddiddorol ac addysgiadol yn ei chwmmi pan fu'n sôn am y dasg enfawr o ailgylchu gwastraff. Cawsom ganddi lawer o gynghorion ac eglurhad ar amryw o faterion. Diolchwyd iddi am noson ddefnyddiol a phwrpasol gan Gwyneth Jones. Cydymdeimlwyd ag Iris Quan yn ei phroffedigaeth yn dilyn marwolaeth ei chwaer yng nghyfraith ac hefyd â Mererid Jones ar huno ei hen-ewythr.

Rhoddwyd y raffl gan Deborah Jones ac fe'i henillwyd gan Irene Lewis a Mair Spate. Y swyddogion am y tymor nesaf fydd Gwyneth Jones fel llywydd, Deborah Jones fel is-lywydd, Mary Jones y trysorydd a Mair Spate yn ysgrifenyddes.

Ar gyfer y cyfarfod nesaf ar Fai 15fed rydym yn disgwyl Anne Thorne i'n hannerch ar hanes Cwm Nedd. I ddiweddu'r cyfarfod cawsom baned a bisgedi wedi eu rhoi gan Margaret Jones a Glenys Lloyd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhydian a Mary Lloyd, Olmarch Uchaf ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Janet Evans, 1 Bro Dulas yn ei phroffedigaeth lem ar farwolaeth ei brawd yn ddiweddar. Cydymdeimlir hefyd â'r holl gysylltiadau teuluol eraill.

Ysgol y Dderi

Ar gychwyn wythnos gynta' tymor yr haf, braf oedd cael croesawu rhai o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn ôl

i'n plith am fore. Bu Cyffin, Oscar, Ryan a Liam yn sôn wrth Blwyddyn 6 am eu profiadau ym Mlwyddyn 7 yn Ysgol Bro Pedr, ac hefyd bu Cara, Kaitlyn a Vaughan o Flwyddyn 13 yn sgwrsio gyda'r disgyblion. Mwynhaodd y plant fore difyr a diddorol yn eu cwmni nhw, ac hefyd Mr Heulyn Roderick a Mr David Williams, y pennaeth. Diolch yn fawr iddynt.

Wrth i ni edrych ymlaen at ymweld ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro ar ddiwedd y mis, hyfryd yw gallu canmol dwy o'n disgyblion ar eu llwyddiant yn yr adran Gelf a Chrefft. Enillodd Ffion Betts Jones, o Flwyddyn 6, y drydedd wobwr am ei gwaith cerameg, ac fe ddaeth ei chwaer, Chloe, sydd ym Mlwyddyn 4, yn ail yn y gystadleuaeth cerameg i'w hoedran hithau. Llongyfarchiadau i chi ferched, ac edrychwn ymlaen yn fawr at weld eich gwaith yn yr arddangosfa Gelf a Chrefft ar faes yr Eisteddfod.

Bu tîmau pêl-droed merched a bechgyn Blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu mewn twrnament a drefnwyd gan yr Urdd yn ddiweddar. Cafodd y plant ddiwrnod wrth eu bodd yn ymarfer eu sgiliau ac yn cefnogi ei gilydd ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth.

“Arbed, ail-ddefnyddio ac ailgylchu!” - dyna oedd neges bwysig sioe arbennig a gawsom gan y Brodyr Gregory un pnawn Gwener. Cawsom dipyn o sbri yn gwyllo'r perfformiad hwyliog ac roedd digon o gyfle i bawb i ymuno yn y canu a'r dawnsio. Mae'n rhaid dweud, serch hynny, mai sêr y sioe i ni (ar wahân i'r Brodyr Gregory wrth gwrs!) oedd Jamie o Flwyddyn 1, Lisa o Flwyddyn 4, Miss Rhian a Mr Gethin! Dawnsiwr o fri - da iawn nhw!

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen
Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn rhan o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

W.D.
Lewis
a'l Fab

Machwyr / Machwyrddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlew.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydleni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Alec Page
Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS
& BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford,
Llambled

01570 422206 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Mrs Anne-Marie Benson i'r ysgol. Mae'n fyfyrwraig yn yr ail flwyddyn yng ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ac yn gwneud ei hymarfer dysgu gyda ni'n yr Adran Iau. Gobeithio dy fod yn mwynhau'r profiad.

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn Ysgol Bro Pedr (y campws hŷn) mewn sesiynau pontio gan wneud amrywiaeth o weithgareddau diddorol. Mae'r profiadau yn werthfawr iddynt yn ogystal â'r cyfle i ddod yn gyfarwydd â'r ysgol uwchradd cyn dechrau yno ym mis Medi. Diolch i'r staff am y croeso.

Treuliodd Alwyn, Ifan ac Owain benwythnos llawn hwyl yn Llangrannog yn ddiweddar. Buont yn gwneud nifer o weithgareddau a chymdeithasu gyda phlant o ysgolion eraill.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Ebrill: £10.00 – 179 – Iestyn ac Erin, Parc Lane, Llanllwni. £5.00 – 200 – Geraint a Marian, Highview, Llanllwni. £5.00 – 125 – Helen Lloyd, 3 Bryndulais, Llanllwni.

C.F.F.I. Llanllwni

Wel am fis prysur ac amrywiol arall! Ar ddechrau'r mis, aeth Anwen Jones, Ifor Jones a Jenny Davies i gystadlu yng nghystadleuaeth Stocmon Iau y Sir. Gwnaethant fwynhau'r profiad o gystadlu; da iawn chi'ch tri!

Ar ddydd Sul, 7fed o Ebrill, aeth dwy aelod o'r clwb, sef Betsan Jones a Sioned Howells, i Lanelwedd fel rhan o dîm Sir Gâr yng nghystadleuaeth Darllen Cymraeg Cymru, ynghyd â Non Morgan o Glwb Llangadog. Llongyfarchiadau i Betsan Jones ar ddod yn ail fel cadeirydd.

Er gwaetha'r gwynt a'r glaw ar fore Sul, 14 o Ebrill, bore gwresog iawn oedd hi yn sied T. L. Thomas, Llanllwni. Diwrnod ein Taith Tractorau oedd hi, ac roedd y lle'n llawn ohonynt! Fe drodd bron i 40 o dractorau allan, hyd yn oed ar ddiwrnod mor arw! (Llun ar y dudalen ôl). Ac yn wir i chi, diwrnod y 'New Hollands' oedd hi! Roedd y tractorau bron yn las i gyd, ac eithrio ambell i un werdd neu goch. Cawsom ni fyrgys, bacwn a chacennau cyn dechrau, ac yna i ffwrd â ni! Elon ni ar draws mynydd Llanllwni, yna i Lansawel, Esgairdawe, Cwmann, Maes-y-crugiau, ac yn ôl i Talardd, Llanllwni. Diolch yn fawr i John ac Ann am y croeso cynnes a'r bwyd blasus ar diwedd y daith. Diolch hefyd i'n llywydd am y dydd, sef Mr Tom Lewis, am ei rodd caredig ac am ei eiriau pwrpasol ar ddechrau'r daith. Diolch i Gerwyn, Anwen a'r teulu hefyd am gael defnydd o'r sied a'r iard yn y bore. Braf oedd cael lle

i gysgodi rhag yr elfennau.

Mis amrywiol fu hi i'r aelodau hefyd. Yn gyntaf, bu Sian Elin Williams o Glwb Cwmann a Hanna Thomas o Glwb Capel Iwan yn siarad am eu taith diddorol i Batagonia gyda'r Urdd. Wedyn fe gawsom ni gwis o dan arweiniad Meryl ac Anwen. Noson gystadleuol iawn oedd hi, ond mwynhaodd pawb mas draw! Yna, aethom ni i chwarae golff yn Llanrhystud, ac yn ôl i Aberaeron i gael sgloodion ar ddiwedd y noson. Wythnos yn ddiweddarach, aethom i weld y 'Cwac Pac' gyda Meirion Owen o Llanarthne. Fe ddysgom ni llawer o driciau newydd ar sut i fynd ati i hyfforddi cŵn defaid, a bu ef yn rhannu'i wybodaeth eang ar gystadlu mewn treialon cŵn defaid. Yna fe gawsom arddangosfa o'i 'Cwac Pac' sydd erbyn hyn yn fyd enwog! Diolch iddo ef a'i wraig am y croeso cynnes a'r lluniaeth ar diwedd y noson.

Llongyfarchiadau mawr i Anwen Jones ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth barnu gwartheg biff Sioe Pontargothi, wedi'i drefnu gan C.F.F.I Dyffryn Tywi. Da iawn ti!

Ar 19 Ebrill cynhaliwyd ein tip-it blynyddol fel rhan o'n dathliadau 70 mlynedd. Ar ôl noson hwylus o gystadlu roedd y rownd derfynol yn un agos iawn, ond yn y diwedd enillodd tîm Geraint Evans, Geraint Jones a Huw Charles, yn erbyn tîm Sioned Bowen, Cathrin Jones a Jasmine Davies. Llongyfarchiadau i'r ddau dîm!

Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn brysur yn paratoi ar gyfer y rali blynyddol sydd i'w chynnal ddydd Sadwrn y 4ydd o Fai ar faes y sioe, Nant y ci. Os oes chwant wâc arnoch galwch mewn, mae amrywiaeth o gystadlaethau yno i diddori pawb.

Ar nos Sadwrn canlynol, sef yr 11eg o Fai, byddwn yn cynnal ein It's a Knockout a rhostio mochyn, sydd eto'n rhan o'n dathliadau 70 mlynedd. Croeso i bawb, ac os ydych yn teimlo'n hyderus mae yna groeso i chi cael tîm ynghyd ar y noson!

Nos Sadwrn y 1af o Fehefin, cynhelir cinio dathlu 70 mlynedd y clwb yng ngwesty Tŷ Glyn Aeron. Croeso i aelodau hen a newydd ac i ffrindiau'r clwb ar hyd y blynyddoedd i ymuno â ni. Cysylltwch â Meryl am ragor o wybodaeth ar 07791305614.

Ail agor Capel Nonni 1963

Annwyl olygydd Clonc,

Wrth glirio heddiw, daeth y llun yma i'r golwg ac wrth edrych ar y cefn gweld dyddiad 23 Mehefin 1963 - 50 o flynyddoedd i fis Mehefin yma.



Achlysur y llun oedd ail agor y Capel ar ôl y gwaith o'i adnewyddu. Bu'r adeilad mewn cyflwr reit ddrwg pan ddechreuodd fy nhad, Y Parchedig Owen Williams, ei weinidogaeth yno yn 1960 ac yn reit fuan aethpwyd ati i gasglu arian oddi wrth yr holl aelodau. Bu'r gwragedd yn tu hwnt o brysur yn cynnal gweithgareddau megis 'Sale of Work' i godi arian i gael carpedi ac organ newydd. Bu teuluoedd yr ardal yn hynod o hael a buan y codwyd y pres oedd eisiau i ddechrau ar y gwaith. Tom Lewis Thomas Crossroads, blaenor a chodwr canu yn y Capel, ymgymrodd at y gwaith adeiladu mwyaf a'r aelodau yn cynorthwyo gan roi o'u gorau glas.

Cofiaf i'r seddau newydd a'r pulpud ddod i gyd ar lorri o ffatri fawr yn Darlington. 'Japanese Oak' oedd y pren a ddewiswyd ac roedd yn edrych yn olau ac yn hardd wedi ei osod yn ei le.

Diwrnod mawr oedd ail agor y Capel ar ei newydd wedd. Daeth aelodau'r ddwy eglwys, sef Bethel Drefach a Capel Nonni, ynghyd i ddathlu a bu te i bawb yn y festri ar ôl y gwasanaeth.



Yn yr ail lun mae Mr Tom Lewis Thomas yn rhoi'r allwedd i Miss Jane Jones (yr aelod hynaf) a gafodd yr anrhydedd o agor y drysau yn swyddogol. Hefyd yn y llun mae fy nhad, y Parchedig Owen Williams, Miss Thomas Bonton, Mrs Jones Pantllyn, Mrs Glenys Williams fy mam, a Mrs Evans Drenewydd.

Gobeithio y bydd yr hanesyn yma o ddiddordeb i drigolion presennol Llanllwni a'r ardal o gwmpas.

Beti Wyn

£17.50 yw pris Tanysgrifiad Blwyddyn Papur Bro Clonc.
Beth am ei brynu fel anrheg i rywun?
Cysylltwch â Mary, ysgrifenyddes Clonc
ysgrifennydd@clonc.co.uk



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau eich gwyliau Pasg ac wedi cael digon o wyau siocled blasus! Sawl wy gawsoch chi? Mi ges i lond lle, o bob lliw a llun.

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun y parc a'r barcud yn yr awyr y mis diwethaf. Da iawn chi i gyd. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Gwenllian Llwyd o Gwmann, Hari Jones o Gwmann, Holly Davies o Abertawe a Teleri Mair Evans o Lanwenog. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Ond y llun mwyaf deniadol a lliwgar yw un Jamie Jones, 10 Heol Maes, Pencarreg, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr i ti Jamie!

Wel nid yw'r tywydd wedi bod yn arbennig yn yr wythnosau diwethaf ac rydw i, fel nifer ohonoch dw i'n siŵr, wedi bod yn y tŷ yn chwarae gyda fy nhenganau. Felly beth am fynd ati i liwio llun fy mocs teganau a dychwelyd y llun i mi cyn diwedd y mis.

Ta ta tan toc.



Enillydd
y mis!

Jamie
Jones



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Gan ein bod ar drothwy Eisteddfod yr Urdd, dyma drafod rhai enwau sydd heb fod ymhell iawn o faes yr eisteddfod.

BRONGEST

Mae dwy enghraifft o'r enw Brongest yng Ngheredigion - y naill ger Capel Brondeifi yn Llambled a'r llall ger Castellnewydd Emlyn. Yr ystyr yw 'llechwedd crwn' a'r elfennau yw 'bron' sef llechwedd a 'cest' sef bol mawr.

Mae traddodiad lleol yn Mrongest, Castellnewydd Emlyn mai Sais o'r enw Guest a roddodd ei enw i'r lle hwnnw; ond does dim tystiolaeth o gwbl i ategu hynny. Yr hyn a geir yn y cyffiniau, sut bynnag, yw amryw fryniau amlwg a'u llechweddau yn ein hatgoffa o foliau dynol, parchus. Nodwedd dirweddol felly a ddynodir gan yr enw. Ceir yr un elfen yn Borth-y-gest a Moel-y-Gest ger Porthmadog; yn Allt-y-Gest yn ardal Abergwesyn; yn Ffos-y-gest yn Abergwili..

Yng Nghaeo yn 1614 ceir sôn am gymeriad hynod iawn, fe ymddengys, o'r enw Hywel y Gest ond, yn anffodus, ni nodir yn y cofnodion pa mor sylweddol oedd y rhan benodol honno o'i gorpws!

PWLLCAM

Gwn am ddau Pwllcam yng Ngheredigion. Mae un ohonynt yn Aberaeron. Rhwng 1800 ac 1814 newidiwyd cwrs gwreiddiol afon Aeron. Yn wreiddiol llifai Aeron i'r môr ger Castellcadwgan ond trowyd yr afon i Bwllcam i ffurfio harbwr porthladd newydd Aberaeron. Disgrifiad syml o ffurf y pwll cyn datblygiadau'r 19 ganrif yw'r enw.

Ceid Pwllcam gynt hefyd yn Llandudoch; angorfa ddiogel beth bynnag fo'r llanw a man hwylus i ddadlwytho nwyddau ar gyfer Poppit gerllaw. Diflannodd yr enw hwn erbyn hyn.

RHOSYGILWEN

Mae dau le o'r enw Rhosygilwen yn Sir Benfro y naill ger Cilgerran a'r llall ger Tyddewi.

Rhosygilwen (ger Cilgerran)

Yr elfennau yn yr enw yw 'rhos' sef ucheldir agored heb ei drin, 'y' (bannod), 'cil' sef cornel, cilfach neu loches a 'gwen' (ansoddair benywaidd) sef o liw golau.

Rhosygilwen (ger Tyddewi)

Ystyr 'rhos' yw ucheldir agored heb ei drin. Mae gweddill y ffurf yn cynrychioli enw personol mewn Hen Saesneg sef Colwine, fel yr awgryma ffurfiau cynnar ar yr enw lle: Rossgollwyn (1587); Ros(e)-golwyn (1614), sef rhosdir Colwine.

Nid yw'n amhosibl, ychwaith, gydio'r elfen hon wrth 'colwyn' sef ci ifanc.

MONINGTON EGLWYS WYTHWR

Mae'r enw Saesneg yn enghraifft o enw sydd wedi'i drosglwyddo o Monington-on-Wye, Swydd Henffordd. Mae enw sydd wedi'i drosglwyddo, eisoes yn enw hollol ddilys mewn un rhan o'r wlad neu'r byd. Ffit o ffansi neu awgrym o ddychan neu ddigrifwch neu ironi sy'n gyfrifol am drosglwyddo'r enw hwnnw i fan arall. Roedd y ddau le, y naill yn swydd Henffordd a'r llall yn Sir Benfro, yn eiddo i deulu D'Audley yn y 14g. Ystyr Monington yw 'fferm pobl Man(n)a' a'r elfennau yw 'Manna' sef enw personol, yr Hen Saesneg 'ing-' (geiryn cysylltiol), 'tun' sef fferm.

Ystyr yr enw Cymraeg yw 'eglwys Gwythwr'. Nid oes cofnod am sant o'r enw hwnnw, ond mae Gwythwr yn digwydd fel enw person mewn cyfnod cynnar ac yn ddiweddarach fel cyfenw (Gwyther) yn ne-orllewin Cymru yn bennaf ond hefyd ar hyd y gororau.

Yng nghof gwerin gwlad dehonglir yr ail enw fel 'wyth' a 'gŵr'.

Crwydro'r cymunedau



Clwb Rygbi Ieuenctid Llanbedr Pont Steffan yn derbyn dillad hyfforddi newydd gan Gareth Jones, Garej Brondeifi, Glenys Jones o Brian Jones & Sons contractwyr tarmacio, a Richard Davies a Morgan Davies o Cambrian Pet Foods. Hefyd yn y llun mae Chris Doughty, Rheolwr y Tîm a Gavin Simpson, Hyfforddwr. Derbyniwyd y dillad cyn i'r timoedd fynd i Tralee yng ngorllewin Iwerddon ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Coffa Tom Mackie; roedd Tom yn gefnogwr brwd o Glwb Rygbi Llambled.



Plant Blwyddyn 3 a 4 Ysgol y Dderi yn mwynhau dysgu am gynefinoedd yn Fferm Denmark, ychydig cyn gwyliau'r Pasg.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.



Adroddiad ar dudalen 19

Eisteddfod Capel y Croes

Ebrill y 3ydd



Llion Thomas, Llanbed yn ennill y Gadair am gerdd ar y thema 'Bod yn Rhydd'. Roedd y Gadair wedi'i gwneud a'i rhoi gan deulu Pantyronnen, Blaencwrt a chyflwynwyd y Gadair i'r bardd gan Osian a Guto Wyn Dafis.



Plant Ysgol Cwrtnewydd a enillodd y Parti Llefaru a'r Parti Unsain yn Eisteddfod Capel y Groes.



Sioned Fflur Davies, Llanybydder yn ennill ar yr adrodd 8-10 a 3ydd ar yr unawd i'r un oedran.



Nia Eleri Morgans, Gorsgoch yn ennill ar yr unawd 8-10oed a Lois Jones Cwmsychbant yn ail.



Ffion Mai Davies, Llanybydder yn ennill y cwpan am ganu 6-8 oed ac ail am adrodd.



Elen Morgan, Drefach yn ennill y cwpan am ganu dan 8oed yn yr adran gyfyngedig.



Lisa Jenkins, Cwmsychbant enillodd Gwpan am Llefaru dan 8 oed yn yr adran gyfyngedig.



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn cipio'r cwpanau am ganu ac adrodd dan 6 oed.